wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

# Asesiad o Effaith Economaidd a Chymdeithasol Gweithgareddau S4C yn 2024/25



S4C /

# Wavehill: Ymchwil cymdeithasol ac economaidd


### Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: St Nicholas House, 31–34 High Street, Bryste, BS1 2AW
- Swyddfa Gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, Llundain, N4 3EY

### Manylion cysylltu

Ffôn: 0330 1228658

Ebost: wavehill@wavehill.com


### Rhagor o wybodaeth

www.wavehill.com


© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.
Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.



### Awduron yr adroddiad

Rhys Maher, Michael Pang, Greta Dennis, Emily Hacker

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Rhys Maher (rhys.maher@wavehill.com)

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 1

1. Ynghylch yr adroddiad hwn ........ 3
   - 1.1 Prif amcanion yr ymchwil ........ 3
   - 1.2 Ein dulliau asesu ........ 3
   - 1.3 Ffurf yr adroddiad ........ 4
2. Prif ddatblygiadau ers 2022/23 ........ 5
   - 2.1 Dylanwad cynyddol S4C ........ 5
   - 2.2 Newidiadau i'r gyllideb ........ 5
   - 2.3 Trawsnewid digidol ........ 6
3. Effaith economaidd S4C yn 2024/25 ........ 8
   - 3.1 Asesu'r effaith economaidd ........ 8
   - 3.2 Gwerth uniongyrchol S4C ........ 9
   - 3.3 Gwariant S4C a'i chadwyn gyflenwi ........ 10
   - 3.4 Effaith cyflogau ........ 12
   - 3.5 Cyfanswm effaith economaidd gweithgarwch S4C yn 2024/25 ........ 13
   - 3.6 Effaith buddsoddiadau masnachol S4C ........ 15
   - 3.7 Prosiect Trawsnewid Digidol S4C ........ 18
   - 3.8 Buddion i'r sector cyhoeddus ........ 19
4. Ôl-troed cymdeithasol ac ehangach S4C ........ 20
   - 4.1 Datblygu sgiliau a doniau ........ 20
   - 4.2 Cynrychiolaeth ac ymgysylltu cymunedol ........ 23
   - 4.3 Effaith ar y Gymraeg ac addysg ........ 26
5. Effaith rhaglenni ........ 28
   - 5.1 Y Llais ........ 28
   - 5.2 Heno a Prynhawn Da ........ 30
   - 5.3 Gogglebocs Cymru ........ 31

Atodiad A: Geirfa ........ 32

Atodiad B: Dulliau asesu'r effaith ........ 33
   - Ardal yr effaith ........ 33
   - Mesur buddion economaidd ........ 33
   - Prif gyfyngiadau'r dull hwn ........ 35

# Rhestr ffigurau a thablau

Tabl 2.1: Incwm S4C o ffi'r drwydded mewn termau real ac arian parod....6
Ffigur 3.1: Cwmpas effaith economaidd S4C....9
Ffigur 3.2: Dadansoddiad o rolau staff S4C....9
Ffigur 3.3: Dosbarthiad gwariant S4C yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol....10
Ffigur 3.4: Gwariant S4C yn ôl sector ac eithrio ffilm, teledu, radio a cherddoriaeth....11
Ffigur 3.5: Dosbarthiad daearyddol staff S4C yn ôl awdurdod lleol....12
Tabl 3.1: Crynodeb o gyfanswm effaith economaidd S4C yn y flwyddyn ariannol 2024/25...13
Tabl 3.2: Cymharu effaith economaidd S4C wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant....14
Ffigur 3.6: GVA a swyddi a gefnogir gan gyflenwyr uniongyrchol S4C yng Nghymru....15

# Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd Wavehill gan S4C i asesu cyfraniad y darlledwr at economïau Cymru a'r Deyrnas Unedig, ei rôl yn cefnogi'r diwydiannau creadigol, ac ôl ei throed yn ehangach yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno asesiad annibynnol o effaith economaidd a chymdeithasol gweithgareddau S4C yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, gan adeiladu ar y llinell sylfaen a sefydlwyd yn astudiaeth effaith 2022/23.

Yn seiliedig ar ein hymchwil, rydym wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- Mae S4C wedi sicrhau gwerth sylweddol, er gwaethaf gweithredu mewn amgylchedd ariannol heriol wrth i chwyddiant dyfu'n gynt na thwf cyllideb y darlledwr; mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn termau real yn ei chyllid o ffi'r drwydded o'i gymharu â'r flwyddyn 2022/23.
- Yn ystod 2024/25, roedd S4C ei hun yn cyflogi 163 o unigolion, sy'n cyfateb i 128 o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) yng Nghymru a 5 y tu allan i Gymru: sef cynnydd o 9 a 3.5 FTE yn y drefn honno, o'i gymharu â 2022/23. Drwy ei wariant, roedd y darlledwr wedi ymwneud â 1,190 o gyflenwyr ar draws 58 o sectorau gwahanol yn 2024/25.
- O ran cyfanswm ei heffaith economaidd yn ystod 2024/25, cefnogodd S4C dros 2,500 o swyddi FTE a chyfrannu £150.3 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru; a hyn yn cynyddu i 2,630 o swyddi a £161.3 miliwn mewn GVA ledled y Deyrnas Unedig.
- Cafodd 57% o wariant S4C yng Nghymru yn 2024/25 ei wario y tu allan i Gaerdydd, a hyn yn bum pwynt canran yn uwch nag yn 2022/23 (52%).
- Am bob £1 o incwm ffi'r drwydded, cynhyrchodd S4C £1.59 mewn GVA yng Nghymru, £1.70 mewn GVA ledled y DU, ynghyd â dychwelyd £1.03 i Drysorlys EF.
- Mae Cronfeydd Cynnwys a Buddsoddi Masnachol S4C hefyd yn cynhyrchu enillion yn ychwanegol at y ffigurau effaith a grybwyllwyd uchod, a hynny drwy ysgogi GVA, swyddi, a chyllid pellach o ffynonellau eraill. Er enghraifft, mae Cronfa Cynnwys Masnachol S4C wedi buddsoddi tua £1.6 miliwn ar draws saith cynhyrchiad a datblygiadau sgriptio. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi helpu i ddatgloi tua £3.2m mewn gwerth cynhyrchu, a hynny'n gymhareb trosoledd o 1:2.
- Mae cyllid S4C yn uniongyrchol yn cefnogi nifer o fentrau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar draws y diwydiannau creadigol; mae hyn yn creu llwybrau i ymuno â'r sector ac yn helpu gweithwyr i uwchsgilio ar ôl dod yn rhan ohono.
- Ysgogir effaith gymdeithasol S4C drwy'r gefnogaeth a'r partneriaethau a ddatblygwyd ganddi ag amrywiaeth o sefydliadau. Mae gweithio gydag Adnodd a chyrff eraill wedi rhoi modd i S4C ymestyn ei heffaith gadarnhaol ym maes addysg trwy helpu i ddatblygu deunyddiau penodol ar gyfer addysg Gymraeg. Yn ogystal, mae partneru â Gŵyl Ffilm Iris, Culture Connect, a Phrifysgol De Cymru wedi sicrhau cefnogi siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd amrywiol a rhoi cyfleoedd iddynt ym myd y cyfryngau Cymraeg.

# S4C / Effaith Economaidd a Chymdeithasol 2024/25


wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

**Yn 2024/25, trwy ei gwaith dydd-i-ddydd, fe wnaeth S4C...**

| cyflogi | cynhyrchu |
|---|---|
| **128** | **£8.8m** |
| staff cyfwerth ag amser-llawn (FTE) yng Nghymru | mewn gwerth ychwanegol gros (GVA) yng Nghymru |

Ers **2022/23,** mae **S4C** wedi cynyddu'i gwariant Cymraeg tu allan i Gaerdydd

**5%**



**Mae gwariant S4C yn treiddio trwy cadwyni cyflenwi lleol gyda...**



**93%**

**o'r effaith ar GVA a chyflogaeth yn aros yng Nghymru**

**Gwariant ar fusnesau yng Nghymru:**

| | |
|---|---|
| 11% | **Gweddill Cymru** |
| 16% | **Sir Gaerfyrddin** |
| 30% | **Gwynedd** |
| 43% | **Caerdydd** |

**Am bob £1 o ffi'r drwydded mae S4C yn derbyn, mae...**

**£1.59** mewn GVA yn mynd at economi Cymru

**£1.70** mewn GVA yn mynd at economi'r DU

**£1.03** yn dychwelyd mewn treth i'r Trysorlys

**Mae effaith cymdeithasol S4C yn cynnwys...**

- Ariannu a chynhyrchu cynnwys i gefnogi cwricwlwm i Gymru
- Cefnogi talent newydd i mewn i'r sector creadigol a datblygu sgiliau'r gweithlu
- Cynrychioli amrywiaeth siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau

**Yng Nghymru, cynhyrchodd cronfa fasnachol S4C...**

- **£1.6m** mewn cyllid trosoledd
- **£4.7m** mewn GVA
- **70** swydd FTE

**Mae buddsoddiadau arall S4C wedi cefnogi...**

- Gofod stiwdio yn Ynys Môn
- Technoleg ynni-effeithlon
- Ymchwil i ddyfodol digidol

**Mae cyfraniad economaidd <u>cyfan</u> S4C yn arwain at...**

**2,500** swydd FTE

**£150.3m** mewn GVA

**0.2%** o GVA Cymru

# 1. Ynghylch yr adroddiad hwn

**Gan adeiladu ar ganfyddiadau ein hadroddiad effaith 2022/23,[1] comisiynodd S4C Wavehill unwaith eto i gynnal astudiaeth ddilynol i asesu ei gweithgareddau yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.**

Ym mis Rhagfyr 2022, cymeradwyodd Bwrdd S4C ddatganiad polisi sy'n dwyn ynghyd weithgareddau presennol S4C yn ymwneud â'i chyfraniad cymdeithasol ac economaidd. Mae'r datganiad polisi hwn yn cyd-fynd â strategaeth gorfforaethol 2022–27 a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022, ac ynddo ymrwymir i fesur effaith economaidd a chymdeithasol S4C yn annibynnol bob dwy flynedd. Taflodd ein hadroddiad blaenorol oleuni ar ôl-troed economaidd cenedlaethol y darlledwr a'i gyfraniadau at fusnesau a chymunedau lleol ledled Cymru.

Nod yr ymchwil hwn yw astudio effaith S4C drwy adeiladu ar y llinell sylfaen a sefydlwyd yn ein hadroddiad 2022/23, gan amlygu ac asesu datblygiadau yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

## 1.1 Prif amcanion yr ymchwil

Mae'r astudiaeth hon yn ceisio asesu cyfraniad economaidd a chymdeithasol cyfredol S4C i Gymru a'r Deyrnas Unedig, gyda'r nod o fynd i'r afael â phedwar prif amcan ymchwil:

1) mesur effaith economaidd gros gweithgareddau S4C yn ystod blwyddyn adrodd 2024/25 yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig;
2) amlinellu sut mae effaith economaidd a chymdeithasol S4C wedi newid o'r llinell sylfaen a amlinellwyd yn ein hadroddiad effaith 2022/23;
3) dangos buddion economaidd (gan gynnwys ariannol) gweithgareddau S4C ar lefel leol a Chymru;
4) arddangos effeithiau cymdeithasol ac ehangach partneriaethau S4C yn 2024/25, partneriaethau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar gymunedau lleol, economïau, a'r iaith Gymraeg.

## 1.2 Ein dulliau asesu

Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i asesu'r effaith economaidd yn rhai safonol ar gyfer y math hwn o asesiad ac fe'u llywiwyd gan yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.[2] Mae'r asesiad cyffredinol yn seiliedig ar y canlynol:

- Adolygiad desg o weithgareddau S4C yn 2024/25, gan ganolbwyntio ar newidynnau gweithredol allweddol sy'n gyrru buddion economaidd a chymdeithasol.

[1] Wavehill, Asesiad o Effaith Gweithgareddau S4C yn 2022/23, Ionawr 2024
[2] Trysorlys EF, Y Llyfr Gwyrdd (2022), Mai 2024

- Data mewnol S4C (sy'n cynnwys data ar incwm, gwariant ei chadwyn gyflenwi, cyflogeion, costau rhaglenni fesul awr) a ddefnyddir yn naratif yr adroddiad hwn ac i gyfrannu at yr asesiad o'r effaith economaidd – mae manylion am y fethodoleg i'w gweld yn Atodiad B.
- Ymgynghoriadau â staff yn S4C i drafod ffyrdd posibl y mae'r darlledwr yn creu effaith economaidd a chymdeithasol.
- Ymgynghoriadau â phedwar o gyflenwyr cynnwys domestig S4C (Boom, Tinopolis, Cwmni Da, Chwarel) i lunio astudiaethau achos manwl sy'n sôn am effaith economaidd feintiol detholiad o gomisiynau S4C a ryddhawyd yn y flwyddyn 2024/25.
- Ymgynghoriadau â saith sefydliad sy'n gweithio mewn partneriaeth ag S4C er mwyn llunio astudiaethau achos sydd, fesul un, yn dangos cyfraniadau economaidd a chymdeithasol ehangach S4C.
- Ymgynghoriadau â dau dderbynnydd buddsoddiadau Cronfa Twf Masnachol S4C (sef Kubos Semiconductors a Condense Reality).

## 1.3 Ffurf yr adroddiad

Mae'r adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 2** yn sôn am rai o'r prif newidiadau yn y cyd-destun y mae S4C yn gweithio ynddo, gan gynnwys penodiadau newydd a phwysau chwyddiant.
- Ym **Mhennod 3** mesurir effaith economaidd gweithgareddau S4C yn y flwyddyn ariannol 2024/25 o ran swyddi a GVA, ac mae'n cymharu effaith S4C â'r llinell sylfaen a sefydlwyd yn ein hadroddiad effaith 2022/23.
- Mae **Pennod 4** yn rhoi trosolwg byr o effaith gymdeithasol S4C, gan grynhoi canfyddiadau o'r adroddiad effaith blaenorol, yn ogystal â chyflwyno astudiaethau achos am sefydliadau y mae S4C wedi partneru â nhw yn ystod y flwyddyn.
- Ym **Mhennod 5** ceir tair astudiaeth achos am rai o gynhyrchwyr S4C, gan fanylu am effaith eu rhaglenni yn y flwyddyn 2024/25.
- Yn yr **Atodiadau** ceir rhestr termau, rhestr ymgyngoreion, a'n dull o gyfrifo effaith economaidd.

# 2. Prif ddatblygiadau ers 2022/23

Yn y bennod hon ceir diweddariad cryno am brif ddatblygiadau S4C ers ein hadroddiad effaith yn 2022/23, ac mae'n rhoi cyd-destun ar gyfer yr effeithiau a amlinellir mewn penodau maes o law.

## 2.1 Dylanwad cynyddol S4C

Mae S4C yn parhau i weithredu yn unol â'i blaenoriaethau strategol drwy gefnogi economïau lleol, datblygu ei chynulleidfa, ac ehangu ystod ac argaeledd ei chynnwys. Mae S4C hefyd wedi sefydlu Tîm Pwrpas Cymdeithasol sydd â'r dasg o wella effaith gymdeithasol y darlledwr drwy ei bartneriaethau, gan roi ffocws ar yr iaith Gymraeg, addysg ac amrywiaeth. Ers cyhoeddi ein hadroddiad blaenorol, mae S4C wedi cymryd sawl cam i gryfhau ei dylanwad economaidd a chymdeithasol cadarnhaol, fel yr amlinellir isod:

**Lansio Cronfeydd Twf a Chynnwys Masnachol**
Lansio cronfeydd twf a chynnwys masnachol S4C gyda'r nod o fuddsoddi mewn partneriaid Cymreig a rhyngwladol sydd â'r potensial i apelio at gynulleidfaoedd rhyngwladol.
**Hydref 2023**

**Adnewyddu Heno a Prynhawn Da**
Mae sioeau cylchgrawn S4C, Prynhawn Da a Heno, yn cael eu hailwampio gyda setiau newydd, a chyflwynwyr newydd yn ymuno â'r tîm yn y stiwdio yn Llanelli.
**Ebrill 2024**

**Addasiad Cymraeg o 'The Voice'**
S4C yn cyhoeddi 'Y Llais', addasiad Cymraeg o 'The Voice'. Bydd y gyfres yn cynnwys yr hyfforddwyr: Bryn Terfel, Aleighcia Scott, Bronwen Lewis ac Yws Gwynedd.
**Mai 2024**

**Lansio ymgyrch S4C i Bawb**
Lansio'r ymgyrch ymgysylltu 'S4C i Bawb', gan gynyddu presenoldeb S4C mewn digwyddiadau fel Pride Cymru, yr Eisteddfod a'r Sioe Amaethyddol Frenhinol.
**Mehefin 2024**

**Yr oriau gwylio wythnosol uchaf mewn 15 mlynedd**
Trwy ddarlledu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd, S4C yn cyrraedd 2 filiwn o oriau gwylio mewn un wythnos – y ffigur uchaf ers 15 mlynedd.
**Awst 2024**

**Partneriaeth ymchwil gyda Media Cymru**
S4C yn cyhoeddi cydweithrediad gyda Media Cymru gyda'r nod o ymchwilio i'w chynulleidfaoedd yn ogystal â datblygu ffyrdd newydd o'u cyrraedd.
**Tachwedd 2024**

**Strategaethau newydd**
Geraint Evans yn dechrau fel Prif Weithredwr S4C, a Bwrdd S4C yn cytuno i adolygu'r strategaeth bresennol gyda'r nod o greu strategaeth newydd 2025-30. Mae is-strategaeth addysg newydd yn cael ei chymeradwyo, y cyntaf o'i bath i S4C.
**Ionawr 2025**



Ffynhonnell: dadansoddiad Wavehill o Ddatganiadau i'r Wasg S4C

## 2.2 Newidiadau i'r gyllideb

Yn sgil trefniant cyllido diweddaraf S4C, a ddaeth i rym o fis Ebrill 2022, sicrhawyd bod cyllid i'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus tan fis Mawrth 2028, o dan strwythur newydd a fyddai'n golygu bod holl gyllid cyhoeddus S4C yn dod o ffi'r drwydded.

Yn ôl y trefniant hwn, bydd cyllideb S4C yn aros yn sefydlog mewn termau arian parod am y ddwy flynedd gyntaf (2022/23 a 2023/24), cyn codi'n flynyddol gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

**Yn seiliedig ar ystadegau chwyddiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), am ddwy flynedd gyntaf y trefniant cyllido, roedd lefelau chwyddiant yn hafal i 11.5%**. Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn 2024/25 (pan gododd cyllideb S4C yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr eto), cynyddodd cyllideb S4C o 6.7%, **gan adael diffyg mewn termau real yn yr incwm o ffi'r drwydded**, fel y gwelir yn Nhabl 2.1 isod.

**Tabl 2.1: Incwm S4C o ffi'r drwydded mewn termau real ac arian parod**

| | Incwm S4C o ffi'r drwydded | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
| Termau arian parod | £88.9m | £88.9m | £94.8m |
| Termau real (lefelau prisiau 2024/25) | £98.8m | £92.4m | £94.8m |

Ffynhonnell: Datchwyddwyr GDP y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac incwm S4C o ffi'r drwydded

Yn ogystal â'r heriau cyllidebol sy'n wynebu S4C, mae cynnydd mewn chwyddiant a chynnydd yn yswiriant gwladol cyflogwyr wedi achosi i gostau cynhyrchu cynnwys dyfu ar gyfradd uwch dros y pum mlynedd diwethaf.

Wrth ymateb i'r heriau hyn, mae S4C wedi gweithredu sawl mesur i wella pa mor effeithlon ydyw. Fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad effaith blaenorol, mae symud pencadlys S4C i'r Egin yng Nghaerfyrddin a chydleoli gwasanaethau technegol gyda BBC Cymru wedi galluogi arbedion costau ynni a gweinyddu. Ar ben hynny, mae S4C wedi creu rhywfaint o effeithlonrwydd yn y broses gynhyrchu trwy weithio'n gyson mewn partneriaeth â'r sector cynhyrchu annibynnol i gomisiynu cynnwys dros gyfnod hirach o amser; mae hyn yn helpu cwmnïau i fabwysiadu technolegau newydd, ac yn galluogi cydweithio rhwng sawl cwmni cynhyrchu.

## 2.3 Trawsnewid digidol

Mae S4C yn parhau i ddatblygu ei harlwy digidol, er mwyn sicrhau y gall wneud y mwyaf o gyrhaeddiad y cynnwys a gomisiynir ganddi. Datblygiad o bwys yn y maes hwn fu pasio Deddf y Cyfryngau (2024) i ddiweddaru rheoliadau ar y cyfryngau mewn ymateb i dirweddau sy'n newid. Mewn perthynas ag effaith S4C, un o brif oblygiadau'r Ddeddf yw newidiadau i amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau teledu cysylltiedig megis Apple TV, Firesticks Amazon a theledu clyfar; mae hyn yn gofyn am lwyfannau i'w gwneud yn rhwydd eu canfod a chael gafael arnynt.

Mewn ymateb hefyd i newidiadau yn newisiadau'r gynulleidfa, mae S4C wedi gwneud nifer o newidiadau i hygyrchedd ei phlatfform ffrydio Clic, megis ailchwarae byw a chael hysbysebion digidol. Mae'r darlledwr hefyd wedi ehangu ei gyrhaeddiad drwy ymuno ag ap teledu clyfar Freely, ynghyd â'r BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5. Mae S4C eisoes wedi dechrau gweld llwyddiannau rhai o'i drawsnewidiadau digidol: mae dros hanner gwylwyr y gyfres ddrama Cleddau wedi'i gwylio ar-alw ar iPlayer – y tro cyntaf i hyn ddigwydd i S4C.

Mae'r newidiadau hyn i dirwedd y cyfryngau yn effeithio ar greu cynnwys a gomisiynir gan S4C yn ogystal ag effeithio ar y defnydd o'r cynnwys hwnnw. O'r herwydd, mae ganddynt ran gynyddol bwysig wrth benderfynu sut y gall S4C gael effaith gymdeithasol ac economaidd gadarnhaol yng Nghymru.

# 3. Effaith economaidd S4C yn 2024/25

Mae mesur effaith economaidd S4C yn ymestyn y tu hwnt i'w rôl fel sefydliad; mae'r asesiad hwn hefyd yn ystyried y cyllid y mae'n ei gylchredeg drwy ei gadwyni cyflenwi, ynghyd â'r gwariant ehangach y gall esgor arno.

Mae'r bennod hon yn ceisio mesur effaith economaidd gweithgareddau S4C ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, ac yn cymharu â'r llinell sylfaen a sefydlwyd yn ein hadroddiad effaith 2022/23.

## 3.1 Asesu'r effaith economaidd

Mae S4C yn cynhyrchu gwerth economaidd drwy sawl llwybr, fel y dangosir yn Ffigur 3.1. Y ddau lwybr amlycaf ar gyfer ei heffaith yw'n uniongyrchol drwy ei gweithgareddau darlledu, ac yn anuniongyrchol drwy'r comisiynu a wna ar gynnwys a gwasanaethau eraill gan y sector cynhyrchu annibynnol a chyflenwyr eraill. Ar ben hynny, mae'r gwariant ehangach i'r gadwyn gyflenwi, drwy gyflogau staff a gwariant cyflenwyr, hefyd yn cyfrif fel rhan o ôl-troed economaidd ehangach S4C.

Ers ein hasesiad blaenorol (2022/23), mae S4C wedi lansio Cronfeydd Cynnwys a Thwf Masnachol: mae'r rhain yn gronfeydd newydd i fuddsoddi mewn busnesau a chynyrchiadau yn y sector creadigol sy'n dangos potensial twf ac sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol hirdymor S4C. Mae gweithredu'r ddwy Gronfa – gan gynnwys eu rheolaeth, eu gwariant, a'u cyflogaeth uniongyrchol – wedi'i ymgorffori yn y modelu economaidd craidd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn (gweler adran 3.5). Mae asesiad ar wahân (adran 3.6) yn cyflwyno cyfraniadau economaidd ehangach y busnesau a'r prosiectau a gefnogir gan y Gronfa, yn ogystal â buddsoddiadau eraill S4C; mae'r asesiad hwn yn cynnwys dadansoddi cyfraniad effaith economaidd a pherfformiad y cwmnïau a'u gweithgareddau yn yr economi ehangach.

Nodyn: Roedd ein hastudiaeth flaenorol wedi mesur effaith ymwelwyr â phencadlys S4C yn yr Egin; ni chafodd y llinyn hwn ei gynnwys yn yr astudiaeth gyfredol oherwydd ei effaith economaidd gymharol fach.


### Diffinio effaith

Wrth sôn am effaith economaidd, mae'r astudiaeth hon wedi amcangyfrif effaith gweithgareddau 2024/25 S4C yn nhermau:[3]

- **Cyflogaeth a gefnogwyd:** nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) sydd eu hangen i gyflawni gweithgareddau S4C ac ateb ei galw am nwyddau a gwasanaethau; a
- **Gwerth Ychwanegol Gros (GVA):** mesur o'r gwerth a gynhyrchir o'r gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchu nwydd neu wasanaeth

[3] Mae manylion am fethodoleg a chyfyngiadau'r asesiad i'w gweld yn Atodiad B.


**Ffigur 3.1: Cwmpas effaith economaidd S4C**




## 3.2 Gwerth uniongyrchol S4C

**Yn ystod 2024/25, cyflogai S4C 163 o unigolion, sy'n gyfwerth i 128 o staff FTE yng Nghymru a 5 tu allan i Gymru – cynnydd o 9 a 3.5 o staff FTE yn y drefn honno, o gymharu â 2022/23.** Er mwyn cefnogi ei gwaith o ddydd i ddydd, mae S4C yn dibynnu ar nifer fawr o rolau hanfodol ym meysydd comisiynu, rheoli cynnwys, digidol, corfforaethol a marchnata. Mae'r darlledwr hefyd yn cyflogi newyddiadurwyr i gynhyrchu deunydd ar gyfer ei blatfform newyddion ar-lein, Newyddion S4C.

**Ffigur 3.2: Dadansoddiad o rolau staff S4C**




Ffynhonnell: dadansoddiad Wavehill o ddata staff S4C 2024/25

Yn seiliedig ar gyfrifon ariannol S4C, yn ystod **blwyddyn ariannol 2024/25, cynhyrchodd y darlledwr oddeutu £8.8m mewn GVA ledled Cymru, gan godi i £9.1m ar gyfer y DU**.


## 3.3 Gwariant S4C a'i chadwyn gyflenwi

Yn seiliedig ar ddata a rannwyd gan S4C, gwariodd y darlledwr **dros £107.7m ar ei gyflenwyr (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) ym mlwyddyn ariannol 2024/25**:

- **gwariwyd dros dair o bob pedair punt (£82.2m i gyd) ar fusnesau sydd â phencadlys yng Nghymru neu weithwyr llawrydd a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru**; ac
- o ran y £25.5m arall, roedd 32% o'r gwasanaethau ac/neu nwyddau a brynwyd wedi dod o sefydliadau sydd â phresenoldeb swyddfa a staff yng Nghymru.

**O'r £82.2m a aeth i fusnesau, gweithwyr llawrydd a sefydliadau yng Nghymru, gwariwyd 57% (neu £46.8m) y tu allan i Gaerdydd, sy'n bum pwynt canran yn uwch nag yn 2022/23 (52%)**. Roedd gwariant S4C yng Nghymru wedi'i ganoli'n bennaf mewn tri awdurdod lleol: Caerdydd (43% o wariant Cymru), Gwynedd (30%), a Sir Gaerfyrddin (16%) (gweler Ffigur 3.3 i gael dosbarthiad daearyddol gwariant S4C). Mae hyn yn cyd-fynd â thri chlwstwr mwyaf Cymru o ran cynhyrchu'r cyfryngau a'r tri chynhyrchydd mwyaf yn y flwyddyn dan sylw, sef: Boom, Rondo a Tinopolis.

**Ffigur 3.3: Dosbarthiad gwariant S4C yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol**





Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o ddata gwariant S4C 2024/25

Mae'n bwysig nodi'n glir bod y mapiau hyn yn seiliedig ar ddata gwariant S4C a lleoliad pencadlys y cwmnïau, a hynny'n golygu bod gwariant mewn rhai ardaloedd i'w weld yn is na'r gwir lefel. Er enghraifft, mae sawl cwmni cynhyrchu mawr wedi'u lleoli yng Ngwynedd a hwythau'n cyflogi staff ac yn defnyddio cyfleusterau yn Ynys Môn, sy'n awgrymu bod ein map yn tanamcangyfrif y gwariant yn Ynys Môn. Heb ddata cywir ar lefel y cwmnïau eu hunain, ni allwn bennu'r gwariant yn fwy manwl gywir.

### 3.3.1 Dosbarthiad sectoraidd gwariant y gadwyn gyflenwi

Er bod gwariant yn yr is-sector ffilm, teledu, radio a cherddoriaeth[4] yn 81% o gyfanswm gwariant S4C, eto **roedd y darlledwr wedi ymwneud â 1,190 o gyflenwyr mewn 58 o sectorau gwahanol yn ystod 2024/25** – 213 ac 11 yn fwy o gyflenwyr a sectorau, yn y drefn honno, nag yn 2022/23. Mae Ffigur 3.4 isod yn amlinellu'r sectorau y tu allan i 'ffilm, teledu, radio a cherddoriaeth' a gafodd dros £1m o wariant S4C, fel cyfran o gyfanswm gwariant S4C yn y flwyddyn ariannol 2024/25.

**Ffigur 3.4: Gwariant S4C yn ôl sector ac eithrio ffilm, teledu, radio a cherddoriaeth**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o ddata gwariant S4C 2024/25

### 3.3.2 Gwerth economaidd gwariant y gadwyn gyflenwi

Fel darlledwr, mae S4C yn comisiynu cynnwys i'w greu gan gwmnïau cyfryngau annibynnol. Yna mae'r cwmnïau hyn yn cyflogi staff, yn cyflogi gweithwyr llawrydd, ac yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau eraill i wneud y gwaith. Mae hyn yn golygu y bydd pob punt y mae S4C yn ei gwario yn cefnogi swyddi a busnesau y tu hwnt i'r rheiny y mae'n eu talu'n uniongyrchol, a thrwy hynny'n creu effaith donnog sy'n elwa'r economi yn ehangach.

[4] Mae'r is-sector hwn yn cynnwys y busnesau sydd â'r codau 59 a 60 yn y dosbarthiad diwydiannol safonol (SIC).

**At ei gilydd, amcangyfrifir bod gwariant y gadwyn gyflenwi dros flwyddyn ariannol 2024/25 wedi cefnogi tua 1,800 o swyddi FTE ac wedi cyfrannu £106.5m mewn GVA ar draws economi Cymru, gan godi i 1,900 o swyddi FTE a £114.7m mewn GVA ar lefel y DU.**

Yn arbennig, **cadwyd 95% a 93% o effeithiau cyflogaeth a GVA, yn y drefn honno, yng Nghymru ei hun;** mae hyn yn dangos rôl S4C fel sefydliad angor ar gyfer sector cynhyrchu'r cyfryngau yng Nghymru a'i gadwyn gyflenwi ehangach.

Yn 2024/25, roedd gwerth uniongyrchol S4C a gwariant ei chadwyn gyflenwi yn is-sectorau ffilm, teledu, radio a cherddoriaeth Cymru wedi cyfrannu tua £61.5m mewn GVA. **Mae hyn yn cynrychioli tua 15.1% o gyfanswm y GVA a gynhyrchwyd gan yr is-sector yng Nghymru yn 2023**.


## 3.4 Effaith cyflogau

Mae incwm y cyflogau a delir i weithwyr S4C a'i chadwyn gyflenwi yn cael ei wario yn yr economi – ar hanfodion fel tai, bwyd a dillad, yn ogystal ag ar nwyddau a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi gweithgarwch economaidd ychwanegol.

**Amcangyfrifir bod yr effaith ychwanegol hon wedi cefnogi 570 o swyddi FTE ac wedi cyfrannu £35.0m mewn GVA yng Nghymru, gan godi i 600 o swyddi FTE a £37.4m mewn GVA ledled y DU, yn y flwyddyn ariannol 2024/25.**

Yn ogystal â'r buddion economaidd sy'n deillio o wario ar staff, gall S4C fod yn creu budd cymdeithasol drwy ddarparu cyflogaeth o ansawdd da i'w staff ledled Cymru; mae hyn yn golygu y gall llawer o bobl weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal o'u dewis. Dengys y graff isod fod staff wedi'u dosbarthu'n dda ledled Cymru.

**Ffigur 3.5: Dosbarthiad daearyddol staff S4C yn ôl awdurdod lleol**




Ffynhonnell: dadansoddiad Wavehill o ddata staff S4C ar gyfer 2024/25

## 3.5 Cyfanswm effaith economaidd gweithgarwch S4C yn 2024/25

Mae S4C yn sefydliad angor i ddiwydiannau creadigol Cymru, gan greu effaith economaidd gadarnhaol ar gyfer ystod eang o sectorau a diwydiannau. Trwy ei gweithrediadau, cyflogaeth, comisiynau a buddsoddiadau strategol, mae S4C yn gallu ysgogi gweithgarwch sylweddol ar draws economïau Cymru a'r DU.

**Yn gyfan gwbl, amcangyfrifir bod gweithgareddau S4C yn 2024/25 wedi cefnogi ychydig dros 2,500 o swyddi FTE ac wedi cyfrannu £150.3m mewn GVA yng Nghymru, gan godi i 2,630 a £161.3m yn y drefn honno ar draws y DU**. Mae hyn yn awgrymu'r canlynol:

- **am bob swydd uniongyrchol yn S4C, cefnogwyd 18.5 a 18.9 o swyddi FTE eraill yng Nghymru a'r DU yn y drefn honno;[5] ac**
- **mae cyfanswm cyfraniad GVA S4C o £150.3m i economi Cymru yn cyfateb i 0.2% o gyfanswm GVA Cymru.**

**Tabl 3.1: Crynodeb o gyfanswm effaith economaidd S4C yn y flwyddyn ariannol 2024/25[6]**

| | Cymru | | Y Deyrnas Unedig | |
|---|---|---|---|---|
| | GVA (£m) | Swyddi FTE | GVA (£m) | Swyddi FTE |
| **Gwerth uniongyrchol S4C** | £8.8 | 130 | £9.1 | 130 |
| **Gwariant S4C a'i chadwyn gyflenwi** | £106.5 | 1,800 | £114.7 | 1,900 |
| **Effaith cyflogau** | £35.0 | 570 | £37.4 | 600 |
| **Cyfanswm** | **£150.3** | **2,500** | **£161.3** | **2,600** |

Ffynhonnell: Modelu Wavehill ar ddata gwariant S4C ar gyfer 2024/25

### 3.5.1 Newidiadau ers 2022/23

Fel yr amlinellwyd yn adran 2.2, oherwydd cyfuniad o gyllideb arian parod sy'n sefydledig am ddwy flynedd a chynnydd cymharol fawr mewn chwyddiant dros yr un cyfnod, gostyngodd incwm S4C o ffi'r drwydded mewn termau real o 6.5% rhwng blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2024/25. Dros y cyfnod hwn, cynyddodd S4C nifer ei chyflogeion hefyd o 12.5 swydd FTE.

O ran gwariant S4C, bu cynnydd o 5 pwynt canran yn swm ei gwariant yng Nghymru sy'n mynd i fusnesau y tu allan i Gaerdydd; mae hyn yn dangos ymrwymiad S4C i sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa o'r budd y mae'n ei gynnig.

[5] Cyfanswm y swyddi FTE a gefnogir gan weithgareddau S4C yn 2024/25 (heb swyddi FTE uniongyrchol S4C) fel cyfran o swyddi FTE uniongyrchol S4C

[6] Sylwer: mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu; oherwydd hynny efallai na fyddant yn cyfateb i gyfanswm y gwerthoedd sydd yn y tabl.

Dengys Tabl 3.2, wrth addasu ffigurau 2022/23 i ystyried chwyddiant, fod effaith GVA S4C wedi gostwng ychydig, tra bod nifer y swyddi y mae wedi'u cefnogi wedi cynyddu. Gellir esbonio'r gostyngiad bach mewn GVA yn bennaf gan yr heriau cyllidebol a chwyddiant a amlinellwyd uchod. Mae modd priodoli'r cynnydd mewn swyddi a gefnogir i ddosbarthiad y gwariant yn ôl sector – bu lefel uwch o wariant mewn sectorau fel 'gweithgareddau gweinyddol a chymorth', 'gweinyddiaeth gyhoeddus' a'r 'celfyddydau creadigol ac adloniant' (gweler Ffigur 3.5), sy'n fwy 'swydd-ddwys': mewn geiriau eraill, maent angen lefel is o drosiant i greu swydd newydd. Felly mae'r gwariant uwch sy'n mynd i'r diwydiannau wedi cynyddu nifer y swyddi a gefnogir gan wariant S4C.

**Tabl 3.2: Cymharu effaith economaidd S4C wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant**

| Effaith ledled Cymru gyfan | Blwyddyn 2024/25 | Blwyddyn 2022/23 |
|---|---|---|
| GVA (lefelau prisiau 2024/25) | £150.3m | £150.7m |
| Swyddi cyfwerth â FTE | 2,500 | 2,130 |

Ffynhonnell: Modelu Wavehill ar ddata gwariant S4C ar gyfer 2022/23 a 2024/25 wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant

### 3.5.2 Gwerth am arian

Er gwaethaf costau sy'n cynyddu a chyllidebau nad yw'n tyfu, mae S4C yn parhau i fod yn un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithiol yn y DU. Yn debyg i'n canfyddiadau o astudiaeth 2022/23, mae ymgynghoriadau astudiaethau achos gyda chwmnïau cynhyrchu (gweler Pennod 5) yn dangos bod S4C yn parhau i gomisiynu am gost sylweddol is yr awr na darlledwyr eraill: fel arfer 25–33% o gyfraddau genre darlledwyr eraill.[7]

Mae S4C hefyd yn darparu gwerth da am arian o ran ei helw ar fuddsoddiad. Drwy ei hincwm o ffi'r drwydded sy'n £94.8m, **cynhyrchodd S4C £1.59 o GVA yng Nghymru a £1.70 o GVA yn y DU am bob £1 o incwm ffi'r drwydded a dderbyniwyd**. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r gwariant uwch gan S4C yng Nghymru ers 2022/23, pan gynhyrchodd £1.53 o GVA yng Nghymru, ond yn dangos elw ychydig yn is ar draws y DU (£1.77 o GVA).

Er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r ffigurau a gyflwynir yma â'n hadroddiad effaith blaenorol ar gyfer 2022/23, rydym wedi defnyddio'r un model mewnbwn-allbwn (IO) gyda'r un rhagdybiaethau sylfaenol am economïau Cymru a'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cyhoeddi canlyniadau wedi'u diweddaru o'i harolwg blynyddol o fusnesau ar gyfer 2023 (a ddefnyddir i bennu'r gwerth economaidd a grëir am bob £1 a werir mewn sector penodol). Wrth ddefnyddio'r rhagdybiaethau newydd hyn, rydym yn canfod, yn 2024/25, fod S4C wedi cynhyrchu £1.37 o GVA yng Nghymru, ac £1.49 yn y DU, am bob £1 o incwm o ffi'r drwydded.


[7] Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau a gynhaliwyd â chwmnïau cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn. Roedd y ffigurau hyn yn debyg i'r rhai a adroddwyd gan gwmnïau cynhyrchu a gyfwelwyd ar gyfer ein hadroddiad effaith blaenorol yn 2022/23.

### 3.5.3 Effaith economaidd yn lleol a rhanbarthol

Canfu ein hadroddiad blaenorol fod S4C wedi bod â rhan allweddol wrth hybu cynhyrchiant ar draws rhannau o Gymru drwy gefnogi cyflogaeth o ansawdd uchel y tu allan i Gaerdydd. Gwneir y gwaith hwn yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, drwy adleoli pencadlys S4C a thrwy gefnogi clystyrau cynhyrchu cyfryngau annibynnol ledled Cymru. Fel y nodwyd yn adran 3.3, yn 2024/25, cynyddodd S4C gyfran ei gwariant Cymreig y tu allan i Gaerdydd bum pwynt canran o'i gymharu â'n hastudiaeth flaenorol. **Gan ystyried swyddi a GVA uniongyrchol yng Nghymru yn unig, cyfrannodd S4C £29.2m mewn GVA a bron i 490 o swyddi FTE y tu allan i Gaerdydd**.

Fel y trafodwyd mewn adrannau blaenorol, mae gwariant S4C yn 2024/25 wedi arwain at ddosbarthiad daearyddol sy'n fwy amrywiol o ran gweithgarwch ac effaith economaidd, o'i gymharu â'n hastudiaeth effaith flaenorol. Mae'r rhan fwyaf o effaith S4C wedi'i phriodoli i'w chyflenwyr a'i chadwyn gyflenwi, sy'n cyfrif am 72% o'r swyddi FTE a gefnogwyd a 70% o'r GVA a gynhyrchwyd. Mae'r ddau fap canlynol yn dangos dosbarthiad daearyddol yr effaith hon ar wariant.

**Ffigur 3.6: GVA a swyddi a gefnogir gan gyflenwyr uniongyrchol S4C yng Nghymru**




Ffynhonnell: Modelu Wavehill ar ddata gwariant S4C ar gyfer 2024/25

# 3.6 Effaith buddsoddiadau masnachol S4C

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae S4C Masnachol wedi gwneud buddsoddiadau ecwiti strategol mewn busnesau a mentrau sy'n dangos potensial cryf i dyfu a dod â gwerth ychwanegol i ddiwydiannau creadigol Cymru. Mae S4C wedi atgyfnerthu'r ethos buddsoddi newydd hwn trwy lansio'r Cronfeydd Cynnwys a Thwf Masnachol ym mis Hydref 2023.

Yn yr adran ganlynol amlinellir effaith economaidd cyfres o fuddsoddiadau a ystyriwyd o fewn cwmpas yr asesiad hwn, yn seiliedig ar raddfa'r buddsoddiad, yr amseriad, a'r tebygolrwydd o effaith weladwy hyd yma.

### 3.6.1 Stiwdios Aria – catalydd creadigol ar gyfer y Gogledd

Yn haf 2022, buddsoddodd S4C Masnachol £450,000 yn Stiwdios Aria, gan bartneru â Cymru Greadigol a Rondo Media i ysgogi cynhyrchu teledu a ffilm yng Ngogledd Cymru – ardal sydd wedi'i thanwasanaethu'n hanesyddol gan y sector sgrin.

Canfu astudiaeth effaith gymdeithasol gan Stiwdios Aria yn 2024/25 fod cynyrchiadau a gynhaliwyd ar y safle – gan gynnwys ffilm fawr o'r Unol Daleithiau, gwaith newydd gan Rondo Media, a'r ffilm annibynnol Mojo – wedi cynhyrchu dros £1m mewn effaith economaidd yn lleol. Cefnogodd y cynyrchiadau hyn gyfanswm o 344 o rolau llawrydd (158 ar y ffilm Americanaidd, 136 gyda Rondo Media, a 50 ar Mojo).

Elwodd cyflenwyr lleol yn uniongyrchol hefyd: sicrhaodd un cwmni a oedd yn adeiladu setiau dros £100,000 mewn busnes newydd, gan ei alluogi i gyflogi pum crefftwr lleol, tra bod cwmni diogelwch rhanbarthol wedi ennill £30,000 drwy gefnogi gwaith stiwdio.

Mae cyfraniad Aria yn mynd ymhell y tu hwnt i'r enillion economaidd. Mae cynyrchiadau diweddar wedi darparu pedair prentisiaeth, chwe lleoliad â thâl, a mentora i 11 o unigolion i symud ymlaen i rolau uwch yn y diwydiant.

Mae'r stiwdio hefyd wedi blaenoriaethu ymgysylltu cynhwysol, gan gynnal 25 o weithdai i fwy na 1,000 o ddisgyblion o ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, a chroesawu dros 345 o fyfyrwyr addysg bellach ac uwch trwy deithiau a hyfforddiant yn y maes.

Trwy bartneriaethau â sefydliadau fel y Cynllun Drws Agored, Gwobr Iris a GISDA, mae Aria wedi mynd ati i ehangu mynediad i'r diwydiannau creadigol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, i bobl ifanc, ac i dalentau sy'n dod i'r amlwg.

O ran ei ymrwymiadau cynaliadwyedd, yn ogystal â sicrhau Safon Cynaliadwyedd Stiwdio BAFTA, mae Aria wedi rhoi dillad, propiau a deunyddiau i elusennau lleol, ysgolion, a grwpiau cymunedol ledled Ynys Môn.

### 3.6.2 Effaith Cronfa Cynnwys Masnachol

Wedi'i lansio ym mis Hydref 2023, sefydlwyd Cronfa Cynnwys Masnachol S4C i gefnogi cynyrchiadau o ansawdd uchel sy'n hyfyw yn fasnachol ac sydd o dan arweiniad cwmnïau o Gymru. Mae'r Gronfa yn cynnig cymysgedd o ecwiti cynhyrchu, benthyciadau llif arian a chymorth datblygu, a hynny er mwyn helpu i ddatgloi cyd-gyllido, cyflymu'r ddarpariaeth, a chynhyrchu enillion ariannol a diwylliannol hirdymor.

Ers ei lansio, **mae'r Gronfa wedi buddsoddi tua £1.6m ar draws saith cynhyrchiad a datblygiadau sgriptio. Cynorthwyodd y buddsoddiadau hyn i ddatgloi gwerth cynhyrchu sy'n gyfanswm o tua £3.2m, sy'n cynrychioli cymhareb trosoledd o 1:2.**

Mae'r Gronfa wedi cefnogi amrywiaeth eang o genres – gan gynnwys animeiddio i blant, rhaglenni ffeithiol, dramâu byw, a ffilm nodwedd – gyda phwyslais cryf ar gadw gwariant cynhyrchu yng Nghymru a chefnogi talent a chyflenwyr lleol:

- **Egin Bach** / **Tiny Buds** – Animeiddiad plant a gynhyrchwyd yng Nghymru a'i ddarlledu ar S4C ac ITV ym mis Mai 2025. Roedd buddsoddiad y Gronfa wedi datgloi cyllid a oedd wedi'i ohirio ers tro byd, gan alluogi'r cynhyrchydd i ddatblygu ap cydymaith drwy gyllid gan Ymchwil a Datblygu Cymru Greadigol.
- **Hafiach** – Drama i oedolion ifanc a ddangoswyd am y tro cyntaf ar S4C ym mis Mehefin 2025. Roedd cymorth y Gronfa wedi dangos potensial masnachol drwy sicrhau buddsoddiad cyhoeddus ychwanegol a chytundeb dosbarthu. Ers hynny mae'r dosbarthwr wedi ymwneud â theitlau pellach gan yr un cynhyrchydd.
- **Gronyn Gobaith** – Rhaglen ddogfen wyddonol a gyflwynwyd mewn sawl fersiwn (S4C, Arte). Yn sgil buddsoddiad y Gronfa, sicrhawyd cydweithio rhyngwladol a helpodd y cynhyrchiad i gyrraedd y raddfa sydd ei hangen i ddatgloi credydau treth a chyd-gyllido.
- **Effie** – Ffilm nodwedd wedi'i ffilmio a'i dangos yn 2025, gyda chriw a chyflenwyr o Gymry yn bennaf. Rhoddodd y Gronfa gyllid llif arian yn erbyn credyd treth y DU i alluogi ei chynhyrchu.
- **Rhiannon – The Celts**, **Murder by the Book**, ac **Isolation** – datblygu tair drama a gefnogwyd drwy gyllid sgriptio, pecynnu rhyngwladol, a chyflwyniadau wedi'u cyd-gynhyrchu. Nod y prosiectau hyn yw sicrhau cyllid pellach a chodi proffil adrodd straeon Cymru ar y llwyfan byd-eang.

Ar draws pob prosiect, mae'r Gronfa Cynnwys Masnachol wedi helpu i gau bylchau cyllido, wedi dangos hyder yn y farchnad, ac wedi cataleiddio buddsoddiad pellach. Cafodd cyfran uchel o'r gwariant cynhyrchu ei gadw yng Nghymru, gan gefnogi busnesau lleol, swyddi, a datblygiad eiddo deallusol.

**O ran effaith economaidd, roedd y cyllid cynhyrchu hwn wedi esgor ar oddeutu £4.7m mewn GVA, ac wedi cefnogi 70 o swyddi FTE yng Nghymru trwy gynhyrchu uniongyrchol a gweithgarwch cysylltiedig y gadwyn gyflenwi. Ledled y Deyrnas Unedig, cwyd hyn i £6.1m mewn GVA ac 80 o swyddi FTE. Yn ogystal, yn sgil gwariant cyflogau o'r gweithgareddau hyn, cynhyrchwyd £1.0m pellach mewn GVA ysgogedig a chefnogwyd oddeutu 10 o swyddi FTE yng Nghymru.**

Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu effeithiolrwydd y Gronfa Cynnwys Masnachol yn denu cyllid allanol a sicrhau effaith economaidd ystyrlon; mae'n dangos gwerth ymyriadau strategol S4C wrth gefnogi cynhyrchu cynnwys a thwf y sector yng Nghymru.

### 3.6.3 Kubos – arloesi technoleg MicroLED gynaliadwy

Sefydlwyd Kubos yn 2017 ac mae'n datblygu deunyddiau'r genhedlaeth nesaf i gefnogi arddangosfeydd microLED sy'n fwy disglair ac sy'n fwy effeithlon o ran ynni. Ei nod yw datblygu arddangosfeydd lliw llawn sy'n effeithlon ar gyfer technolegau newydd megis arddangosfeydd realiti estynedig, dyfeisiau i'w gwisgo, a goleuadau mwy datblygedig. Awgryma modelu gan yr Ymddiriedolaeth Garbon y gallai mabwysiadu'r dechnoleg hon yn fyd-eang arbed hyd at 100 miliwn tunnell o allyriadau carbon, o'i gymharu â LEDs confensiynol.

Yn 2024, sicrhaodd Kubos rownd fuddsoddi gwerth £1.6m, dan arweiniad Banc Datblygu Cymru ac arian cyfatebol gan Innovate UK a buddsoddwyr preifat. Cyfrannodd S4C £250,000 drwy ei Chronfa Twf Masnachol – cyllid y mae'r cwmni'n dweud oedd yn hanfodol i gwblhau'r rownd. Hebddo, efallai y byddai datblygiad y dechnoleg wedi dod i ben ar gam hollbwysig.

Bellach, gyda'i bencadlys yng Nghaergrawnt a thîm technegol sy'n tyfu wedi'i leoli yng Nghaerdydd, mae Kubos yn cyflogi pump o staff amser llawn ac un academydd rhan-amser yng Nghymru. Mae tua 51% o'i wariant ar brosiectau yn cael ei gadw yn y rhanbarth, gan gefnogi cyflenwyr Cymru a chryfhau'r ecosystem lled-ddargludyddion lleol.

**Hyd yn hyn, amcangyfrifir bod y buddsoddiad wedi cyfrannu £0.8m mewn GVA ac wedi cefnogi 16 o swyddi yng Nghymru, a £1.5m mewn GVA a 30 o swyddi ledled y DU**. Sicrhawyd archeb sampl eisoes, a'r cwmni yn anelu at lansio cynnyrch hyfyw erbyn 2026, a chynyddu ei dîm wrth iddo ehangu.

## 3.7 Prosiect Trawsnewid Digidol S4C

Yn 2024, lansiodd S4C brosiect Trawsnewid Dyfodol Digidol S4C, sef prosiect ymchwil ac arloesi mawr a gefnogwyd gan £350,000 gan Media Cymru gydag arian cyfatebol gan S4C, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad i £700,000. Lluniwyd y prosiect yn rhannol yn sgil Deddf y Cyfryngau 2024, a'i nod yw sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn parhau i fod yn weladwy ac yn hygyrch mewn tirwedd cyfryngau digidol sy'n newid yn gyflym.

Cynhaliwyd y prosiect mewn partneriaeth â Triple Crown Consulting a Tierney Consulting, a'i gefnogi gan arbenigedd mewnol sylweddol, gan greu strategaeth ddosbarthu a chynulleidfa newydd ar gyfer S4C. Mae'n ymateb i bryderon a godwyd ynghylch y gostyngiad mewn pa mor hawdd yw darganfod cynnwys Cymraeg yn y byd digidol.

Mae'r prif weithgareddau allweddol wedi cynnwys mapio cynulleidfaoedd cyfredol a rhai'r dyfodol, gwerthuso llwyfannau dosbarthu digidol, a datblygu mapiau technegol ar gyfer datblygu apiau ac integreiddiadau trydydd parti. Mae'r prosiect hefyd yn archwilio partneriaethau a modelau trwyddedu newydd i ehangu cyrhaeddiad S4C yng Nghymru, y DU, ac yn rhyngwladol.

**Disgwylir i'r cyfnod Ymchwil a Datblygu ei hun esgor ar gyfraniad economaidd cadarnhaol i economi Cymru, gyda GVA o tua £0.9m a chefnogi 15 o swyddi FTE.**

## 3.8 Buddion i'r sector cyhoeddus

O ystyried yr amrywiaeth o lwybrau y mae S4C yn gwario ei chyllideb drwyddynt, ac yn annog ei chyflenwyr a'i staff i wario yn yr economi hefyd, mae S4C yn cyfrannu at gyllid cyhoeddus drwy amrywiol lwybrau:

- **Trethi Cyflogaeth**: mae hyn yn cynnwys cyflogeion S4C a swyddi sy'n cael eu cefnogi ar hyd ei chadwyn gyflenwi (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) yn cynhyrchu treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol – amcangyfrifir eu bod yn gyfanswm o £18.7m.
- **Trethi cyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi**: mae buddsoddiadau a gweithgareddau comisiynu S4C yn ysgogi gweithgarwch economaidd ymhlith ei chyflenwyr, cwmnïau cynhyrchu, a chadwyni cyflenwi anuniongyrchol sy'n arwain at gyfraniadau treth ychwanegol mewn TAW, treth gorfforaeth, ardrethi busnes a threthi eraill (h.y. trethi mewnforio) – amcangyfrifir eu bod wedi cynhyrchu £61.5m.
- **Gwariant Cyflogeion**: mae incwm a enillwyd gan gyflogeion S4C a'r rhai ar hyd ei chadwyn gyflenwi yn cael ei wario ar nwyddau a gwasanaethau, a hynny yn ei dro yn cyfrannu at economïau lleol ac yn cynhyrchu refeniw treth ychwanegol trwy TAW a threthi eraill sy'n seiliedig ar ddefnydd – amcangyfrifir eu bod yn gyfanswm o £17.4m.

**Amcangyfrifir bod gweithgareddau S4C yn 2024/25 wedi cynhyrchu cyfanswm o £97.7m mewn trethi.[8] Mae hyn yn cyfateb i £1.03 o dreth yn cael ei dychwelyd i Drysorlys EF** ar ffurf trethiant uniongyrchol neu anuniongyrchol, am bob £1 o incwm o ffi'r drwydded a dderbyniwyd gan S4C yn 2024/25. Mae hyn ychydig yn is na'r ffigur wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant ar gyfer 2022/23, a ddangosodd fod gweithgareddau S4C yn dychwelyd £1.04 mewn treth am bob £1 o incwm o ffi'r drwydded. Awgryma hyn nad yw cyfraniad cyllidol S4C yn cwmpasu ei hincwm o ffi'r drwydded yn unig, ond hefyd yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Llywodraeth, sydd yn ei dro yn hybu economi ehangach y DU.

[8] Oherwydd cyfyngiadau yn y data, nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys treth gorfforaeth ac ardrethi busnes a dalwyd gan fusnesau a grëwyd ac a gefnogwyd gan wariant cadwyn gyflenwi S4C. Ni amcangyfrifwyd trethi anuniongyrchol eraill (gan gynnwys Yswiriant Gwladol cyflogwyr), sy'n golygu bod y ffigurau a gyflwynir yn amcangyfrifon ceidwadol.

# 4. Ôl-troed cymdeithasol ac ehangach S4C

Er bod y bennod flaenorol wedi ceisio mesur cyfraniadau economaidd S4C, mae dylanwad ac effaith gadarnhaol y darlledwr yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r hyn y gellir ei fesur o ran swyddi a GVA.

Rhoddodd astudiaeth effaith 2022/23 sylw i lawer o gyfraniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach S4C, a'r rhan fwyaf o'r rhain yn parhau. O'r herwydd, bydd y bennod hon yn crynhoi'r themâu a archwiliwyd yn ein hadroddiad blaenorol, ac yn ehangu'r asesiad hwn i gynnwys effeithiau gweithgareddau S4C ers 2022/23.

## 4.1 Datblygu sgiliau a doniau

Un o'r themâu allweddol o'n hastudiaeth flaenorol oedd y rôl y mae S4C yn aml yn ei chwarae fel cam cyntaf yng ngyrfa llawer o weithwyr y diwydiant creadigol, sef rhoi modd i weithwyr o flaen y camera a'r tu ôl iddo fireinio eu sgiliau a'u doniau trwy eu gwaith o ddydd i ddydd.

Yn ogystal â datblygu sgiliau yn y gwaith, **mae cyllid S4C yn uniongyrchol yn cefnogi nifer o fentrau codi ymwybyddiaeth a hyfforddi ledled y diwydiannau creadigol, a hynny'n creu llwybrau i ymuno â'r sector, a chefnogi uwchsgilio yn y gwaith**.

Nod y mentrau cefnogi sgiliau a ariennir gan S4C yw nodi cyfleoedd datblygu ar draws sector cynhyrchu annibynnol Cymru, er mwyn sicrhau y gall barhau i ffynnu. Cynigir y gefnogaeth hon gan amrywiaeth o sefydliadau, megis Teledwyr Annibynnol Cymru, Cynghrair Sgrin Cymru, Gyrfa Cymru, RAD Cymru, ac eraill. Mae enghreifftiau o gyrsiau yn cynnwys:

- Cefnogaeth ar gyfer math o gynnwys neu genres penodol: mae hyn yn cynnwys lleoliadau gwaith yn y diwydiant gyda genres rhaglenni penodol, cyrsiau ar weithio gyda deunydd o'r archifau, a chaffael hawliau cerddoriaeth.
- Cefnogaeth i weithio gyda grwpiau penodol: mae hyn yn cynnwys diogelwch plant, rheoli iechyd meddwl staff, ac iechyd a diogelwch ar y set.
- Cefnogaeth i reoli prosiectau a chynhyrchu: mae hyn yn cynnwys rheoli hawlfraint, siarad yn gyhoeddus, ac ymgysylltu â ffrydiau ariannu newydd posibl.

Mae mentrau S4C yn aml yn ategu rhaglenni eraill ledled Cymru, fel Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod y sector yn symud i'r un cyfeiriad strategol ac yn gallu parhau i fod yn gynaliadwy ac yn gystadleuol. Mae'r cyfleoedd hyn hefyd yn galluogi llawer i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghymunedau eu cartref.

## Astudiaeth Achos: Cynghrair Sgrin Cymru

**Ers mis Mawrth 2020, mae S4C wedi bod yn cefnogi Cynghrair Sgrin Cymru (SAW), sef sefydliad nid-er-elw sy'n hyrwyddo Cymru fel lleoliad gwych ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu. Mae eu partneriaeth wedi anelu at ehangu cyrhaeddiad y cyfryngau Cymraeg, a helpu i hyrwyddo Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.**

Mae Cynghrair Sgrin Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu ag ysgolion Cymraeg a Saesneg eu hiaith i gynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am y sector; mae hyn wedi cynnwys tynnu sylw at fanteision y Gymraeg fel llwybr i fyd y cyfryngau a dangos faint o'r broses gynhyrchu sy'n digwydd yng Nghymru. Drwy gysylltu ag ysgolion a phobl ifanc, mae Cynghrair Sgrin Cymru yn ceisio cefnogi amrywiaeth yn y sector Cymraeg – nod a rennir gan S4C.

**Mae S4C hefyd yn gwneud cyfraniad blynyddol i Gynghrair Sgrin Cymru, a llawer o hynny yn cefnogi digwyddiadau fel Sinemaes yn yr Eisteddfod Genedlaethol.** Yn 2024, drwy Sinemaes, cymerodd dros 2,000 o bobl ran mewn rhaglen ddeinamig o weithdai, sgyrsiau a dangosiadau, gan roi blas o sut beth yw gweithio yn y cyfryngau a'r diwydiant ffilm yng Nghymru. Mae effaith Sinemaes wedi bod yn sylweddol, o ran **darparu llwyfan i wahanol brosiectau gan y cyfryngau a darlledwyr, a datgloi cyllid pellach gan fusnesau sydd am ddefnyddio gofod Sinemaes**.

Yn ddiweddar, mae cyllid gan Channel 4 wedi cefnogi Cynghrair Sgrin Cymru i gynnal prosiect 4Schools. Mae'r fenter hon yn hysbysu ac yn ysbrydoli disgyblion 11–16 oed ynghylch yr amrywiaeth o yrfaoedd sydd ar gael yn y maes teledu a darlledu. Gan edrych i'r dyfodol, mae **Cynghrair Sgrin Cymru yn gweithio gydag S4C i gynnal fersiwn Gymraeg o 4Schools**, gan sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn parhau i fod wrth wraidd dyfodol creadigol Cymru.

## Astudiaeth Achos: It’s My Shout

Mae It’s My Shout yn gwmni cynhyrchu cyfryngau annibynnol sy’n annog pobl o gefndiroedd dan anfantais a chymdeithasol ddifreintiedig i ymgysylltu â’r diwydiannau creadigol. **Ers 2013, mae S4C wedi rhoi cefnogaeth ariannol a chynghorol i It’s My Shout**, megis cynnig arweiniad ar ddarpar gynhyrchwyr gweithredol ar gyfer ei gynyrchiadau. Mae’r cyllid yn rhannol gefnogi staff, mentoriaid, ôl-gynhyrchu, ffioedd lleoliad, offer a theithio ar gyfer un prosiect.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae It’s My Shout wedi gweithio gyda phobl i greu dwy ddrama a dwy raglen ddogfen y flwyddyn, yn ogystal â sawl ffilm fer yn Gymraeg ac yn Saesneg. Defnyddir y cynyrchiadau yn blatfform cychwynnol i bobl dosbarth gweithiol sydd â diddordeb mewn ffilm, gan roi modd iddynt ddatblygu’r sgiliau a’r profiad i ymuno â sector y sgrin. **Mae hyfforddiant ac uwchsgilio wedi’u hymgorffori yn eu cynyrchiadau, a hyn wedi’i wneud yn bennaf trwy ddarparu mentoriaid i helpu pobl i ddatblygu a meithrin hyder yn eu sgiliau**. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae It’s My Shout wedi cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau meddal a chaled yn y sector creadigol; mae hefyd wedi gweithio gyda phobl ddi-waith a ffoaduriaid i ddatblygu eu sgiliau a dod o hyd i lwybrau i waith cyflogedig pellach.

Mae It’s My Shout hefyd yn hybu cysylltiadau cryf rhwng comisiynwyr fel S4C a chymunedau lleol; mae hyn yn sicrhau bod gan gymunedau gymaint o fewnbwn â phosibl yn y cynhyrchiad a ddarlledir. **Mae’n canolbwyntio ar ffurfio cysylltiadau hirdymor â chymunedau ledled Cymru trwy ei lysgenhadon**: mae unigolion sydd wedi gweithio ar gynyrchiadau It’s My Shout wedi tynnu sylw at gyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn y dyfodol yn eu cymunedau, a chyn-fyfyrwyr wedi symud ymlaen i rolau cynhyrchu a chomisiynu yn sector sgrin Cymru, gan helpu i wella cynrychiolaeth yn y diwydiant ehangach.

## Astudiaeth Achos: Hansh Dim Sbin

Mae'r Cynllun Hyfforddi Newyddiadurwyr Digidol ar gyfer newyddiadurwyr Cymru yn bartneriaeth gydweithredol rhwng S4C ac ITV Cymru; mae'n rhoi cyfle i ddau newyddiadurwr o Gymru weithio ym maes materion cyfoes a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer platfform newyddion Hansh 'Dim Sbin'. Defnyddir y cyllid blynyddol a gaiff y cynllun **gan S4C i dargedu unigolion nad ydynt efallai wedi dilyn llwybrau gyrfa newyddiaduraeth traddodiadol**, gan roi iddynt y sgiliau i barhau yn eu gyrfa. Mae hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu newyddiadurwyr Cymraeg i'r dyfodol, ac yn cynnig cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y maes.

Yr hyn sy'n gwneud yr hyfforddeiaeth yn wahanol yw ei ffocws unigryw ar newyddiaduraeth ddigidol; mae hyn yn helpu i ledaenu ymwybyddiaeth, datblygu gwybodaeth, ac yn tynnu sylw at yr angen am hyfforddeiaethau sy'n seiliedig ar sgiliau digidol i ymateb i arferion sy'n newid yn nefnydd pobl o'r cyfryngau – yn enwedig ymhlith cynulleidfaoedd iau.

**Mae graddedigion y cynllun wedi llwyddo i symud i rolau yn ITV, y BBC, a Newyddion S4C**; neu maent wedi symud i greu cynnwys digidol, gan sicrhau felly bod eu sgiliau'n parhau i fod o fudd i'r diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru.

Mae platfform Hansh Dim Sbin wedi llwyddo i gynyddu pa mor weledol yw newyddion Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ynghyd â'i normaleiddio. Drwy gynnwys dwyieithog ar Instagram a fideos ag isdeitlau Cymraeg ar TikTok, mae'r platfform wedi gwella ymgysylltiad a hygyrchedd i gynulleidfaoedd iau, gan ehangu cynhwysiant a pha mor berthnasol yw cynnwys Cymraeg mewn mannau digidol.

**Mae Hansh Dim Sbin wedi tyfu i fod y platfform newyddion Cymraeg mwyaf ar TikTok, gan fod â mwy na 10,000 o ddilynwyr ar draws TikTok ac Instagram. Mae cynnwys a grëwyd gan yr hyfforddeion diweddaraf wedi'i weld bron i 600,000 o weithiau;** dengys hyn gryn ymgysylltiad â chynnwys digidol a ariennir gan S4C, gan gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt efallai wedi rhyngweithio â'r cyfryngau Cymraeg o'r blaen.

# 4.2 Cynrychiolaeth ac ymgysylltu cymunedol

Mae S4C wedi ymrwymo i gynrychioli Cymru a'r iaith Gymraeg yn ei chyfanrwydd; mae hyn wedi cynnwys creu rhaglenni a chefnogi sefydliadau sy'n adlewyrchu defnydd cyfoes o'r iaith ar draws yr ystod gyfan o bobl, cymunedau a daearyddiaethau.

Tynnodd ein hastudiaeth flaenorol sylw at y ffaith bod S4C wedi chwarae rhan gref wrth rannu naratifau ac ymdeimlad o falchder cenedlaethol a chymunedol: yn fwyaf amlwg, yn narllediadau S4C o ddigwyddiadau chwaraeon cenedlaethol, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, gan gynnig darlun cadarnhaol o ddiwylliant Cymru. Fodd bynnag, mae hyn hefyd wedi'i gyflawni trwy ehangu S4C i'r cyfryngau digidol, gan gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, ac adlewyrchu sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio o ddydd i ddydd gan wahanol gymunedau.

Mae S4C yn parhau i dyfu fel cyhoeddwr cynnwys aml-lwyfan, **gyda chynnydd o 89% yn nifer ei dilynwyr, cynnydd o 129% mewn ymgysylltiadau, a 18 gwaith yn fwy o sesiynau gwylio ar draws ei llwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol yn y flwyddyn flaenorol**.[9] Mae'r twf hwn mewn ymgysylltiad yn seiliedig ar gynnydd yn y swm o gynnwys a gynhyrchir, gydag S4C yn comisiynu 123 awr o gynnwys digidol yn 2024/25, o'i gymharu â 56 awr yn 2023/24.

Canfu ein hastudiaeth flaenorol hefyd fod rhaglenni a chynnwys S4C wedi chwarae rhan bwysig wrth godi proffiliau llawer o fentrau, digwyddiadau a grwpiau cymunedol. Yn fwy uniongyrchol, mae S4C wedi cefnogi amrywiaeth o fudiadau i hybu pa mor weladwy yw'r Gymraeg sy'n cael ei defnyddio mewn rhai mannau penodol, a sicrhau y gall eu rhaglenni adlewyrchu'r Gymru gyfoes gymaint ag y bod modd.

Isod mae rhai astudiaethau achos gan sefydliadau sy'n cydweithio ag S4C i sicrhau gwell cynrychiolaeth o'r iaith Gymraeg:

## Astudiaeth Achos: Gŵyl Ffilm Iris

Sefydlwyd Gŵyl Ffilm Iris yn 2006 ac mae'n ddathliad o straeon LHDTC+ wedi'u hadrodd mewn ffilmiau, ac fe'i cynhelir yng Nghaerdydd. Bob blwyddyn, **mae Iris yn dyfarnu'r wobr fwyaf yn y byd am ffilm fer**, ac yn arddangos lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy ei thaith ledled y DU, sef 'Iris Ar Gwydr', yn ogystal ag mewn dangosiadau rhyngwladol. Gan anrhydeddu ei hymrwymiad i adlewyrchu amrywiaeth yng Nghymru, **noddwyd taith ddiweddar Iris Ar Gwydr gan S4C; mae hyn wedi helpu Iris i ymestyn ei hôl-troed cenedlaethol a hyrwyddo cynrychiolaeth LHDTC+ yn y Gymraeg trwy ffilm**.

Yn 2024, ymwelodd taith Iris Ar Grwydr â 21 o leoliadau ledled y Deyrnas Unedig, **gan ddangos detholiad o ffilmiau byrion LHDTC+ – gan gynnwys Teth, sef comedi drawsryweddol yn y Gymraeg a gomisiynwyd gan S4C.** Mae Teth yn archwiliad pwerus a doniol o hunaniaeth a pherthnasoedd trawsryweddol, gan dynnu sylw at amrywiaeth rhywedd yng Nghymru. Mae defnydd y ffilm o ddeialog Cymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth wneud naratifau cwiar yn fwy gweladwy a pherthnasol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, ac yn cadarnhau bod hunaniaethau LHDTC+ yn rhan annatod o bob cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol. Yn bwysig, mae cynrychioli profiadau cwiar wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn dilysu hunaniaethau a phrofiadau personol.

**Fe wnaeth cefnogaeth S4C hefyd helpu'r ŵyl i gael graddfeydd oedran BBFC ar gyfer y ffilmiau – gofyniad sy'n hanfodol ar gyfer dangos yn y rhan fwyaf o sinemâu'r DU.** Nid yn unig y gwnaeth hyn ehangu cyrhaeddiad a hygyrchedd y ffilmiau a ddangoswyd am y tro cyntaf yn Iris, ond hefyd llwyddodd i gynyddu gwelededd y cyfryngau Cymraeg mewn mannau arddangos prif ffrwd y tu hwnt i'r byd Cymraeg. Nododd trefnwyr Gŵyl Ffilm Iris fod proffesiynoldeb y daith, wedi'i ategu'n rhannol gan gyllid S4C, wedi arwain at fwy o ddiddordeb gan sinemâu a lleoliadau diwylliannol sydd am gynnal dangosiadau yn y dyfodol.

[9] Data S4C yn cymharu blynyddoedd 2024/25 a 2023/24 ar gyfer YouTube, Facebook, X, Instagram a TikTok.

## Astudiaeth Achos: Uwchgynhadledd Dyfodol Hygyrch

Digwyddiad undydd yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru oedd Uwchgynhadledd Dyfodol Hygyrch, wedi'i chynnal gan Brifysgol De Cymru ym mis Medi 2024. Cafodd y digwyddiad ei ariannu gan Cymru Greadigol, Media Cymru, Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) ac S4C, **nod y digwyddiad oedd tynnu sylw at astudiaethau achos o hygyrchedd cadarnhaol yn y sector sgrin, yn ogystal â lledaenu ymwybyddiaeth o'r gwaith sydd angen ei wneud i sicrhau bod y sector yn wirioneddol gynhwysol**.

Gan gydnabod y diffyg rolau uwch ymhlith pobl â chyflwr iechyd hirdymor neu anabledd yn y sector ffilm a theledu, **noddodd S4C y digwyddiad drwy roi rhodd a ddefnyddiwyd i gael amrywiaeth yn y panelwyr a'r gweithdai ar y diwrnod**.

Arweiniwyd y digwyddiad gan siaradwyr byddar, anabl a niwroamrywiol a roddodd gyflwyniadau i arweinwyr academaidd a diwydiant y sector sgrin. Cafwyd sgyrsiau am brofiadau bywyd amrywiol y rhai sydd ag anghenion ychwanegol yn y sector sgrin. Yn ogystal, cryfhaodd yr uwchgynhadledd rwydweithiau sefydliadau allweddol sy'n canolbwyntio ar fynediad cyfartal ac anabledd, fel Celfyddydau Anabledd Cymru, It's My Shout, a Creative Access.

Daeth nifer dda i'r digwyddiad; sicrhawyd bod **lle i bron i 200 o fynychwyr ar y diwrnod, gan gynnwys pobl o gwmnïau cynhyrchu, prifysgolion, sefydliadau elusennol, a'r cast, y criw a'r dalent** eu hunain. Oherwydd anghenion cymhleth rhai o'r mynychwyr a'r siaradwyr, sicrhaodd y nawdd fod nifer digonol o ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, a chapsiynu byw, wedi'u hintegreiddio yn y sgyrsiau a'r sesiynau.

## Astudiaeth Achos: Culture Connect

Mae prosiect Culture Connect Wales (CCW), **dan arweiniad Watch Africa CIC**, wedi'i gynllunio i gysylltu pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig â'r sector ffilm a theledu yng Nghymru. Drwy feithrin cysylltiadau â darlledwyr a chodi ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa yn y diwydiant, mae CCW am chwalu rhwystrau i dalent sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, **mae S4C wedi bod yn un o brif gyllidwyr y prosiect, ynghyd â Channel 4, ITV, BBC, a Chymru Greadigol**. Mae'r cyllid wedi galluogi CCW i gynnal amrywiaeth o weithgareddau gweithredol a rolau staffio, sy'n helpu pobl i gael mynediad at gyfleoedd a chynyddu cynrychiolaeth yn y diwydiant. **Ymhlith y gweithgareddau mae comisiynu digwyddiadau, gweithdai a grwpiau ffocws gyda darlledwyr, ffeiriau gyrfaoedd, gwaith allgymorth gydag ysgolion a grwpiau cymunedol, mentora, a heriau creu cynnwys**. Mae'r cyllid gan S4C hefyd wedi cefnogi rheoli gwefan CCW, hysbysebu rolau, a chyfathrebu gwaith y prosiect o fewn y diwydiant.

**Mae gwaith CCW wedi galluogi pobl i gael gwaith yn niwydiant sgrin Cymru** drwy gynnig profiadau mewn cynyrchiadau drwy leoliadau, er mwyn datblygu talent yn lleol yng Nghymru. Mae CCW wedi datblygu cysylltiadau ag ystod eang o grwpiau cymunedol ledled Cymru, a hynny wedi arwain at gynrychiolaeth fwy dilys ac amrywiol o brofiadau bywyd yn y cynnwys a gomisiynir a'i gynhyrchu yng Nghymru. Mae hyn yn ymestyn i'r cyfryngau Cymraeg, lle mae **CCW yn hyrwyddo cyfleoedd yn weithredol i siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd ethnig lleiafrifol**. Mae'r ffocws deuol hwn yn gwneud y diwydiant yn fwy cynhwysol tuag at siaradwyr Cymraeg a phobl nad ydynt yn Gymraeg.

Yn ogystal, mae **CCW yn helpu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau yn y sector drwy weithio gyda darparwyr hyfforddiant yn y diwydiant**, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag S4C, er mwyn darparu cyfleoedd hyfforddi wedi'u targedu, a chanfod unigolion a fyddai'n elwa o gyfleoedd hyfforddi eraill.

# 4.3 Effaith ar y Gymraeg ac addysg

Er bod S4C wastad wedi bod yn hollbwysig wrth hyrwyddo ac arddangos yr iaith Gymraeg drwy gydol ei hanes yn y 43 mlynedd diwethaf, nid yw wedi bod yn rhan benodol o'i strategaeth tan yn ddiweddar. Yn dilyn memorandwm dealltwriaeth newydd rhwng S4C a Chymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2023, mae'r darlledwr wedi cymryd camau mwy bwriadol i gefnogi dysgu'r iaith a throsglwyddo'r iaith rhwng y cenedlaethau drwy gomisiynu cynnwys wedi'i dargedu.

Ers ein hadroddiad diwethaf, **mae S4C wedi ffurfio 'Tîm Pwrpas Cymdeithasol' sy'n cynnwys penodiadau allweddol gan gynnwys Arweinydd Strategaeth y Gymraeg, a Rheolwr Addysg, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg.** Mae hyn wedi helpu cyfraniad S4C at addysg drwy gefnogi creu cynnwys sy'n cefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru. Mae hyn yn golygu cynhyrchu cynnwys sy'n ddifyr ac yn addysgol i blant a phobl ifanc, yn ogystal â chynnwys sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg newydd waeth beth fo'u hoedran.

Yn ogystal, mae S4C wedi partneru â sefydliadau eraill ym maes addysg Cymru, fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg, a chorff hyd braich newydd Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu adnoddau addysgol sef Adnodd.

## Astudiaeth Achos: Adnodd

Mae Adnodd yn goruchwylio cydlynu a darparu adnoddau addysgol sy'n cefnogi Cwricwlwm Cymru. Comisiyna Adnodd adnoddau gan grëwyr cynnwys, addysgwyr a theuluoedd, gan sicrhau bod yr holl ddeunyddiau'n hygyrch, yn gynhwysol, ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Mae gan Adnodd bartneriaeth strategol gydag S4C, wedi'i hategu gan gyd-ymrwymiad i ehangu cynnwys Cymraeg.** Mae S4C ac Adnodd yn cyfarfod yn rheolaidd i archwilio cyfleoedd comisiynu, gan fod â ffocws penodol ar raglenni sy'n cynnig gwerth addysgol clir a pherthnasedd trawsgwricwlaidd mewn pynciau fel gwyddoniaeth, hanes, daearyddiaeth a'r celfyddydau.

Mae enghraifft ddiweddar yn cynnwys Pwy, Sut, Pam, sef sioe wyddoniaeth Gymraeg ar S4C. **Gan weithio gydag Adnodd, golygwyd clipiau o'r sioe yn glipiau byr, hawdd eu treulio wedi'u teilwra i'r gynulleidfa darged o blant 8–14 oed, ac ar gael trwy HWB**, platfform dysgu ar-lein Llywodraeth Cymru. Mae S4C yn cynnal sianel ar HWB sy'n gwasanaethu fel storfa o adnoddau ystafell ddosbarth ar gyfer amrywiaeth o bynciau a grwpiau oedran. Wrth symud ymlaen, mae Adnodd yn awyddus i barhau â'i gydweithredu strategol gydag S4C, gan weithio i nodi pa gynnwys gan S4C y gellid ei ehangu i weithio fel adnoddau addysgol. Gyda chefnogaeth gan S4C, yn ogystal â darlledwyr a sefydliadau eraill, mae Adnodd yn anelu at barhau i wella pa mor hygyrch a pherthnasol yw deunyddiau addysgol dwyieithog i ddysgwyr ac addysgwyr ledled Cymru.

# 5. Effaith rhaglenni

Mae’r bennod hon yn cyflwyno astudiaethau achos sy’n amlinellu effeithiau economaidd a chymdeithasol rhai o raglenni mwyaf blaenllaw S4C yn ystod 2024/25. Lluniwyd yr astudiaethau achos yn seiliedig ar dystiolaeth a data a rannwyd gan y pedwar cwmni cynhyrchu y tu ôl i’r rhaglenni.

## 5.1 Y Llais

Sioe adloniant ar raddfa fawr a gynhyrchir gan Boom Cymru ar gyfer S4C yw Y Llais, a dyma 75fed fersiwn o fformat y rhaglen dalent fyd-eang a llwyddiannus gan ITV Studios, sef The Voice. Mae’r sioe Gymraeg yn cynnwys Syr Bryn Terfel, Aleighcia Scott, Bronwen Lewis ac Yws Gwynedd fel pedwar hyfforddwr sy’n barnu’r perfformwyr ac yn eu tywys trwy’r gyfres. Y Llais oedd un o’r rhaglenni adloniant mwyaf a gomisiynwyd gan S4C ers blynyddoedd, gan fod ag amserlen gynhyrchu yn ymestyn dros oddeutu 50 wythnos o’r clyweliadau cyntaf i’r darlledu terfynol.

Mae cynhyrchu Y Llais wedi arwain at effeithiau economaidd cadarnhaol ar draws ystod eang o ranbarthau Cymru. Roedd y broses, a ddechreuodd gyda chlyweliadau, wedi cynnwys ymgyrch farchnata helaeth a chlyweliadau yng Nghaernarfon a Chaerdydd. Ffilmiwyd y Clyweliadau Dall, y Rownd Gynderfynol a’r Rownd Derfynol yn Dragon Studios ger Pen-y-bont ar Ogwr; a ffilmiwyd y Galw’n Ôl a’r Dosbarthiadau Meistr yng Nghaerdydd a Sir Fynwy. Ffilmiwyd cefndiroedd y cystadleuwyr ledled y Gogledd, y Canolbarth, y Gorllewin, y Dwyrain a’r De, ac roeddent yn adlewyrchu amrywiaeth y dalent canu o bob cwr o’r wlad. Llwyddodd Boom i wneud defnydd helaeth o gyflenwyr lleol ar gyfer acwsteg, dylunio setiau, goleuadau, arlwyo, ac iechyd a diogelwch, a hynny wedi sicrhau bod llawer o fuddion economaidd wedi’u cadw yng Nghymru.

Yn seiliedig ar fodelu effaith economaidd gan Wavehill, wrth ystyried y gwariant uniongyrchol ac effeithiau dilynol ar y gadwyn gyflenwi a chyflogau, **amcangyfrifir bod cynhyrchu Y Llais wedi gwneud cyfraniad economaidd sylweddol, sef cyfanswm o £3.3m mewn GVA a 72 o swyddi FTE ledled Cymru**; gan dyfu i £3.7m mewn GVA a 113 o swyddi FTE ledled y DU.

Roedd gallu mewnol Boom Cymru a phartneriaethau sefydledig yn y diwydiant wedi arwain at effeithiau cadarnhaol pellach yn ystod y broses gynhyrchu:

- Fel rhan o ITV Studios, defnyddiodd Boom gadeiriau eiconig The Voice UK, gan leihau costau a gwastraff deunyddiau. Drwy gyd-logi gofod stiwdio gyda chynhyrchiad Cân i Gymru cwmni Afanti, roedd Y Llais hefyd wedi gallu ailddefnyddio elfennau o’i set a rhannu cyfleusterau technegol, a hyn wedi lleihau’r effaith amgylcheddol ymhellach.
- Wrth weithio gyda Rondo a Media Cymru, cefnogodd Boom chwe phrentis trwy leoliadau cyflogedig fel rhedwyr a chydlynwyr.

- Roedd cynhyrchu Y Llais wedi golygu bod llawer o staff a gweithwyr llawrydd Boom wedi cael profiad o weithio mewn fformatau adloniant byw, gan felly helpu i arallgyfeirio a chryfhau'r sylfaen dalent leol.

Cafodd Y Llais dderbyniad cadarnhaol gan y cyhoedd, gyda phaneli gwylwyr S4C yn canmol gallu'r rhaglen i arddangos y defnydd o'r Gymraeg ar draws ystod eang o gymunedau Cymru; mae hyn wedi atgyfnerthu gwerthoedd Boom ac S4C o ran cynhwysiant, yn ogystal â chynrychioli a dathlu'r iaith Gymraeg yn ei hamryfal ffurfiau.

Mae Y Llais wedi bod yn un o raglenni mwyaf llwyddiannus S4C ar Clic ac iPlayer, a phenodau unigol wedi cael ei ffrydio bedair gwaith yn fwy, ar gyfartaledd, na rhaglenni adloniant eraill ar S4C. Dengys yr ystadegau gwylio bod Y Llais wedi llwyddo i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, gyda 55% o'i gwylwyr o dan 45 oed (sy'n oedran cyfartalog sylweddol is na gwylwyr arferol S4C). Yn ogystal, llwyddodd y rhaglen i feithrin arfer gwylio rhwng sawl cenhedlaeth, a hynny wedi ysgogi S4C i symud y gyfres i slot amser cynharach i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd iau. Ar y cyfryngau cymdeithasol, mae Y Llais wedi cael lefelau ymgysylltiad cryf, gyda phob perfformiad ar gael i'w gwylio ar YouTube.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae Boom Cymru wedi dechrau ar y gwaith cyn-gynhyrchu ar gyfer ail gyfres o Y Llais, gan adeiladu ar lwyddiannau'r gyfres gyntaf.

---

"Mae gweithio gydag S4C ar Y Llais wedi bod yn gyfle cyffrous i ddod â fformat sy'n enwog yn fyd-eang i gyd-destun Cymraeg. Mae'r sioe wedi rhoi modd i'n timau a'n partneriaid arloesi, cydweithio a thyfu, a hynny i gyd wrth gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac atgyfnerthu perthnasedd diwylliant Cymru mewn adloniant cyfoes." - Staff cynhyrchu Y Llais

---



## 5.2 Heno a Prynhawn Da

Cafodd Heno a Prynhawn Da eu rhyddhau gyntaf yn eu fformat gwreiddiol 35 mlynedd yn ôl, a bellach y rhain yw rhaglenni cylchgrawn blaenllaw S4C yn ystod yr wythnos, gan gael eu darlledu’n fyw o stiwdios Tinopolis yn Llanelli. Mae Heno a Prynhawn Da ill dau yn parhau i gyd-fynd yn gryf â gweledigaeth wreiddiol y sioe gyntaf: arddangos a dathlu Cymru gyfoes gyfan, gan gefnogi cyflogaeth yn y sector creadigol y tu allan i Gaerdydd. Erbyn hyn, mae Heno a Prynhawn Da yn cael eu darlledu’n fyw bob dydd o’r wythnos am 2 y pnawn a 7 yr hwyr, gan roi sylw i newyddion, treftadaeth a diwylliant o bob cwr o Gymru.

Mae Tinopolis yn cynhyrchu 90 munud o deledu byw ar gyfer S4C bob diwrnod o’r wythnos, ac felly mae angen cyfran uwch o staff cyflogedig penodol na chynhyrchiad teledu cyffredin. Mae’r cysondeb gwaith hwn wedi cryfhau clystyrau diwydiannau creadigol y tu allan i Gaerdydd; gan fod Tinopolis yn gweithredu o Lanelli a Chaernarfon, mae hyn wedi galluogi 120 o staff penodol FTE i weithio a byw mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. O ran gwariant uniongyrchol a’r effeithiau dilynol ar y gadwyn gyflenwi a chyflogau, **mae cynhyrchu Heno a Prynhawn Da wedi gwneud cyfraniad economaidd sylweddol, sef cyfanswm o £16.6m mewn GVA a 272 o swyddi FTE ledled Cymru**, gan dyfu i £17.8m mewn GVA a 283 o swyddi FTE ledled y DU.

Er bod y ddwy raglen yn dibynnu llai ar weithwyr llawrydd, eto cynlluniwyd y cynhyrchiad i roi modd i newydd-ddyfodiaid ymuno â’r gweithlu: pwysleisir yn gryf bod cyfleoedd gwaith yn cael eu cynnig mewn amryw o’u hadrannau, a nodir llwybrau datblygu clir. Nododd Tinopolis mai’r llwybrau amlycaf yw gwaith camera a sain, a newydd-ddyfodiaid yn dechrau trwy weithio yn amgylchedd y stiwdio cyn ehangu eu sgiliau drwy waith ar safle; mae hyn yn rhoi modd iddynt yn raddol gynyddu pa mor gyfarwydd ydynt â gwahanol dechnolegau.

Mae Heno a Prynhawn Da ill dau am dynnu sylw at gynifer â phosibl o elfennau cymdeithas Cymru, o’r lleol iawn hyd at lefel genedlaethol. Yn y flwyddyn 2024/25, roedd y rhaglenni wedi rhoi sylw i’r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd ill dwy, i elusennau lleol iechyd meddwl a chorfforol, Gŵyl Lenyddiaeth y Gelli Gandryll, a thaith tîm pêl-droed merched Cymru i gyrraedd yr Ewros. Mae’r naratifau hyn yn addysgu, diddanu, ac yn taro deuddeg yn emosiynol â’u cynulleidfa.



## 5.3 Gogglebocs Cymru

Cynhyrchwyd Gogglebocs Cymru ar y cyd rhwng Chwarel a Cwmni Da, a dyma'r fersiwn Gymraeg o'r sioe realiti boblogaidd Gogglebox. Yn y rhaglen mae teuluoedd a ffrindiau Cymraeg ledled y Deyrnas Unedig yn gwylio teledu'r wythnos flaenorol ac yn rhoi sylwadau arno.

Lansiwyd Gogglebocs Cymru ym mis Tachwedd 2022 i gyd-fynd â phen-blwydd S4C yn 40 oed. Cafodd y rhaglen ei chanmol o fod yn ffordd newydd a difyr o arddangos hanes S4C, yn ogystal â rhoi golwg gynrychioliadol ar Gymru. Darlledwyd trydedd gyfres Gogglebocs Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

Cyfrannai 16 o gartrefi at bob sioe, a Chwarel arweiniai'r broses o ffilmio; defnyddiai gryn dipyn o weithwyr llawrydd a chriwiau lleol ledled Cymru i ffilmio ar gyfer y rhaglen. Yna byddai Cwmni Da yn golygu'r rhaglen o'i ystafell yng Nghaernarfon. Mae hyn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol helaeth: mae modelu effaith economaidd Wavehill yn amcangyfrif bod **cynhyrchu Gogglebocs Cymru wedi cefnogi £2.1m mewn GVA a 30 o swyddi FTE yng Nghymru, gan dyfu i £2.4m a 38 o swyddi FTE ledled y DU**.

Mae partneriaeth y cwmnïau cynhyrchu wedi galluogi rhannu effeithlonrwydd ac arferion gwaith da – gan gynnwys defnyddio technolegau cwmwl sydd newydd eu datblygu i drosglwyddo ffeiliau fideo mawr, rhai y byddai angen eu cludo'n gorfforol yn y gorffennol; mae hyn yn lleihau costau cludo ac allyriadau.

Mae Gogglebocs Cymru wedi bod yn gomisiwn llwyddiannus iawn i S4C, fel rhaglen boblogaidd ynddi ei hun ac fel dull o hyrwyddo rhaglenni eraill ar y sianel. Mae'r sioe wedi bod yn boblogaidd iawn ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda sawl clip wedi'i gweld dros filiwn o weithiau ar lwyfannau fel TikTok a Facebook.



# Atodiad A: Geirfa

- **Cyfwerth ag amser llawn (FTE)** – mesur o gyflogaeth er mwyn bod modd cymharu'n well rhwng gwaith rhan-amser, amser llawn a llawrydd
- **Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)** – mesur o gynhyrchiant economaidd sy'n mesur cyfraniad gweithredwr economaidd (e.e. cwmni, unigolyn, rhanbarth). Caiff ei fesur trwy ystyried, mewn punnoedd (£), werth y nwyddau a'r gwasanaethau sydd wedi'u cynhyrchu, ar ôl tynnu costau'r mewnbynnau a'r deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchu hwnnw.
- **Lluosydd** – ffactor sy'n nodi'r incwm ychwanegol a gynhyrchir o ganlyniad i rywfaint o wariant cychwynnol. Yn achos S4C, mae ei gwariant uniongyrchol mewn sawl achos yn mynd i gwmnïau cynhyrchu a fydd yn gwario'r arian wedyn ar eu staff a'u cyflenwyr eu hunain. Mae'r lluosydd yn ceisio mesur y gwariant ychwanegol hwn sy'n digwydd o ganlyniad i'r gwariant cychwynnol. Mae lluosydd GVA a Chyflogaeth o'r tablau Mewnbwn-Allbwn yn dilyn yr un cysyniad, sef ei fod yn gymhareb o effaith y GVA neu'r Gyflogaeth ychwanegol sy'n deillio o effaith y GVA neu'r Gyflogaeth uniongyrchol cychwynnol.

# Atodiad B: Dulliau asesu'r effaith

Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd yma i asesu'r effaith economaidd yn safonol ar gyfer y math hwn o asesiad ac maent yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi. Penderfynwyd ar y dull gweithredu yn seiliedig ar gwmpas yr astudiaeth, ansawdd ac argaeledd data economaidd, ac amserlenni, ond yn bennaf defnyddiwyd:

- **Tablau Mewnbwn-Allbwn Cenedlaethol Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r Alban**, **y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)** – mae'r rhain yn rhoi cipolwg ar economi a llif nwyddau a gwasanaethau rhwng gwahanol sectorau. Mae'r tablau yn galluogi defnyddwyr i amcangyfrif mewn modd cyson yr effeithiau lluosydd llawn (GVA, cyflogaeth) sy'n deillio o newid mewn allbwn/galw yn unrhyw un o'r sectorau hyn.
- **Canllawiau Cyflym Diwydiant** – pan nad yw gwybodaeth ar gael ac/neu pan fo data arolwg yn brin, rydym wedi pwyso ar feincnodau'r diwydiant i wneud yn iawn am hynny.

Cafodd y fethodoleg a'r allbynnau eu hadolygu gan ymgynghorydd allanol sy'n arbenigo mewn llunio a defnyddio tablau mewnbwn-allbwn.

## Ardal yr effaith

Mae ffocws yr asesiad ar y cyfraniad economaidd y mae S4C yn ei wneud i economïau Cymru a'r Deyrnas Unedig.

## Mesur buddion economaidd

### Gwerth uniongyrchol S4C

Gan bwyso ar ganllawiau o Lyfr Glas Cyfrifon Gwladol ONS y Deyrnas Unedig 2022, mae'r adroddiad hwn yn amcangyfrif effaith economaidd uniongyrchol S4C gan ddefnyddio'r dull incwm:

$$GVA = Elw/\,Colled\,(cyn\ treth) + Costau\ Cyflogeion + Dibrisiant + Amorteiddiad$$

### Gwariant S4C a'i chadwyn gyflenwi (neu effaith anuniongyrchol)

Roedd data gwariant cyflenwyr a rannwyd gan S4C yn cynnwys gwariant fesul cyflenwr, eu cod post, disgrifiad a rhif cwmni pan oedd hwnnw ar gael. Defnyddiwyd rhif y cwmni i bennu cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) dau ddigid y cyflenwr (ac felly'r diwydiant y mae'n gweithredu ynddo) i gyd-fynd â phroffiliau'r sector yn y modelau mewnbwn-allbwn. Os nad oedd rhif y cwmni ar gael, defnyddiwyd gwefannau a chategori gwariant fel dangosyddion ar gyfer diwydiant y cyflenwr, a phennwyd dosbarthiad SIC. I benderfynu ar effaith anuniongyrchol neu effaith y gadwyn gyflenwi:

1. Cafodd y gwariant ei drosi i GVA gan ddefnyddio'r gymhareb berthnasol rhwng trosiant y sector a GVA o Arolwg Blynyddol o Fusnesau 2021 yr ONS – pan oedd data ar lefel ranbarthol neu god SIC wedi'i hepgor, defnyddiwyd cymarebau'r blynyddoedd blaenorol neu ar lefel genedlaethol.
   - Oherwydd bod 80% o wariant cadwyn gyflenwi S4C ar fusnesau sy'n gweithredu yn is-sector 'Ffilm, Teledu, Fideo, Radio, a Cherddoriaeth' (SIC 59 a 60), mabwysiadwyd cyfartaledd sawl blwyddyn o'r gymhareb i gyfrif am effeithiau pandemig COVID-19 ar y sector.
2. Yna defnyddiwyd lluosyddion cyflogaeth a GVA Math I o dablau mewnbwn-allbwn y Deyrnas Unedig i amcangyfrif effaith economaidd gwariant cadwyn gyflenwi S4C.

## Effaith cyflogau (ysgogol)

Mae'r astudiaeth wedi ceisio deall effaith cyflogau gan S4C a gweithwyr ei chadwyn gyflenwi, gan gynnwys gweithwyr llawrydd.

- **Cyflogeion S4C** – Roedd Datganiad Cyfrifon S4C wedi dangos cyflogau net cyflogeion; addaswyd hwn yn ôl cyfradd cynilo cyfartalog yn y Deyrnas Unedig (yr ONS) i amcangyfrif incwm gwario. Yna defnyddiwyd tabl mewnbwn-allbwn ONS y DU i bennu gwariant aelwydydd ar y diwydiant, ac o hyn cyfrifwyd cyfanswm yr effaith GVA a chyflogaeth.[10]
- **Cadwyn Gyflenwi** – defnyddiwyd lluosyddion cyflogaeth a GVA math II wedi'u codi o dablau mewnbwn-allbwn Llywodraeth yr Alban.
- **Gweithwyr llawrydd** – Defnyddiwyd cyflog cyfartalog y diwydiant ar gyfer gweithiwr llawrydd yng Nghymru, ynghyd â data costau genre S4C i amcangyfrif cyfanswm y cyflog a nifer y gweithwyr llawrydd a gyflogir. Yna cyfrifwyd treth a chynilo er mwyn amcangyfrif cyfanswm incwm gwario'r gweithwyr llawrydd. Yna defnyddiwyd tabl mewnbwn-allbwn y DU yr ONS i bennu gwariant aelwydydd ar y diwydiant, ac o hyn cyfrifwyd cyfanswm effaith GVA a chyflogaeth.

## Effaith ehangach

Amcangyfrifodd yr adroddiad effaith buddsoddiadau masnachol S4C a rhaglenni'r astudiaethau achos. Ar gyfer y ddau, casglwyd data ychwanegol ar gyllidebau a gwariant. I gyfrifo'r cyfraniad economaidd, defnyddiwyd yr un dull i gyfrifo 'Effaith Anuniongyrchol' (gweler uchod) – hynny yw, trosi gwariant i GVA cyn defnyddio lluosyddion.

[10] https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/timeseries/dgd8/ukea

## Prif gyfyngiadau'r dull hwn

Mae'n bwysig cydnabod bod ystod o gyfyngiadau i gynnal asesiad effaith o'r math hwn, a dylid cadw'r rhain mewn cof wrth ystyried canfyddiadau'r asesiad.

- **Cymarebau trosiant i GVA yr Arolwg Blynyddol o Fusnesau (ABS), yr ONS** – roedd cymarebau SIC 59 a 60 yng Nghymru yn ystod 2021 yn anarferol o isel, a hyn yn debygol o fod dan ddylanwad pandemig COVID-19. Er mwyn cael darlun cywirach o werth y sector, defnyddiwyd cyfartaledd o'r cymarebau hyn ar draws sawl blwyddyn (pan ydynt ar gael) yn dilyn adolygiad gan gymheiriaid.
- **Tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru** – yn 2007 y cyhoeddwyd y tablau Mewnbwn-Allbwn (IO) diweddaraf sydd ar gael yn gyhoeddus am economi Cymru. Wrth gadw at safonau'r diwydiant, defnyddiom dablau Mewnbwn-Allbwn Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r Alban, sy'n cynnwys data hyd at 2021. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli bod y dull hwn yn tybio bod y cysylltiadau sectoraidd yn y DU a'r Alban yn debyg i'r rhai yng Nghymru ac mai o 2019 y daw'r data mewnbwn-allbwn diweddaraf.

  Mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi tablau mewnbwn-allbwn sy'n benodol ar gyfer Cymru. O ganlyniad, bydd unrhyw asesiadau o effaith economaidd S4C yn y dyfodol yn defnyddio data mwy cywir, wedi'i deilwra ac yn benodol i economi Cymru. Gallai hyn arwain at newidiadau sylweddol yn yr allbynnau a'r canfyddiadau yn y dyfodol.

- **Gweithwyr llawrydd** – mae heriau unigryw wrth asesu effaith economaidd gweithwyr llawrydd, a hynny'n deillio'n bennaf o'r diffyg ystadegau swyddogol sy'n gyson ac yn uniongyrchol yn mesur eu cyfraniadau. Mae'r heriau hyn yn cynnwys natur amrywiol gwasanaethau llawrydd, anawsterau wrth gategoreiddio, a chyfyngiadau wrth gasglu data cywir. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ceisiodd ein hastudiaeth fesur effeithiau economaidd gweithwyr llawrydd trwy eu gwariant yn yr economi leol.

  Er mwyn pennu maint y gweithlu o weithwyr llawrydd sy'n cynhyrchu cynnwys a gefnogir gan S4C, diweddarwyd canfyddiadau'r asesiad blaenorol[11] a chynnal ymgynghoriadau fel rhan o astudiaeth eleni.

[11] Cynhaliwyd arolwg ar-lein i gyd-fynd â'r ymgynghoriadau dros y ffôn er mwyn casglu gwybodaeth am weithwyr llawrydd. Gwahoddwyd holl gyflenwyr S4C a dderbyniodd fwy na £10,000, gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu, i ymateb i'r arolwg.

- **Dull methodolegol** – wrth ddatblygu'r astudiaeth hon, adolygwyd y methodolegau a ddefnyddiwyd mewn asesiadau blaenorol o effaith economaidd gweithgareddau S4C (cyn ein adroddiad o 2022/23). Fodd bynnag, dewisom ddull methodolegol gwahanol, gan gyd-fynd ag arferion a geir mewn adroddiadau tebyg (gan gynnwys asesiad KPMG o'r BBC).[12] Gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau tryloywder a sicrhau bod modd ailadrodd y fethodoleg mewn comisiynau yn y dyfodol. O ganlyniad, nid oes modd cymharu canlyniadau'r adroddiad hwn yn uniongyrchol â chanlyniadau adroddiadau blaenorol. Fodd bynnag, mae modd cymharu'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol â'r rhai a gyflwynwyd yn ein hadroddiad effaith o 2022/23.

Mae'r cyfyngiadau allweddol hyn yn pwysleisio cymhlethdodau cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith, a dylid eu cadw mewn cof wrth ddehongli'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

[12] *KPMG – An Assessment of the Economic Impact of the BBC*: A report for the BBC for Financial Year 2019/20 (Mawrth 2021)

Cysylltwch â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol

wavehill